

Maniffesto Llafur Cymru 2017

SEFYLL CORNEL CYMRU



Welsh Labour  Llafur Cymru

9648_17 Reproduced from electronic media, promoted by Louise Magee, General Secretary, Welsh Labour, on behalf of Welsh Labour, both at 1 Cathedral Road, Cardiff CF11 9HA.

SEFYLL CORNEL **CYMRU**

CYNNWYS

RHAGAIR Carwyn Jones a Christina Rees **4**

RHAGAIR Jeremy Corbyn **6**

1. BARGEN DEG I'N HECONOMI **9**

Bargen deg i'n heconomi 11

System drethiant deg 12

Mantoli'r gyfriflen 13

Buddsoddi mewn isadeiledd 14

Cymorth i Ddiwydiant 15

Trawsnewid ein system ariannol 16

Bargen deg i fusnesau Cymru 17

Ynni Cynaliadwy 18

2. TRAFOD BREXIT **21**

Trafod Brexit 23

Mewnfudo 26

Masnach Ryngwladol 27

3. BARGEN DEG AR GYFER ADDYSG **29**

Bargen deg ar gyfer addysg 31

Y Blynyddoedd Cynnar 32

Ysgolion 33

Sgiliau 34

Addysg Bellach 35

Prentisiaethau 36

Cyflogadwyedd 37

Addysg Uwch 38

4. BARGEN DEG YN Y GWAITH **41**

Bargen Deg yn y Gwaith 43

Comisiwn Gwaith Teg a Swyddi Gwell yn Agosach at Gartrefi 44

Hawliau yn y gwaith 45

Gweithwyr hunangyflogedig 46

5. NAWDD CYMDEITHASOL **47**

Nawdd Cymdeithasol 49

Urddas i Bensiynwyr 50

Urddas i'r rheiny nad ydynt yn gallu gweithio 51

6. CARTREFI DIOGEL I BAWB **53**

Cartrefi diogel i bawb 55

Perchnogaeth tai 56

Rhentwyr preifat 57

Tenantiaid y cyngor a thenantiaid cymdeithasol 58

Digartrefedd 59

7. GOFAL IECHYD I BAWB	61
Y GIG	63
Iechyd y cyhoedd	64
Staff y GIG	65
Ariannu iechyd a gofal cymdeithasol	66
Iechyd Meddwl	67
8. CYMUNEDAU MWY DIOGEL	69
Yr Heddlu a Throseddu	71
Diogelwch a gwrthderfysgaeth	72
Diogelwch Ffiniau	73
Gwasanaethau tân ac achub	74
Cyfiawnder	75
Carchardai a'r gwasaneth prawf	76
9. BYW BYWYDAU CYFOETHOCACH	77
Cymunedau lleol	79
Yr amgylchedd a materion gwledig	81
Lles Anifeiliaid	83
Trafnidiaeth	84
Diwylliant i bawb	86
Y cyfryngau	88
Chwaraeon	89
10. YMESTYN DEMOCRATIAETH	91
Ymestyn democratiaeth	94
Lloegr	95
Yr Alban	95
Cymru	96
Gogledd Iwerddon	96
11. CYMDEITHAS FWY CYFARTAL	97
Cymdeithas fwy cyfartal	99
Menywod	100
Cydraddoldeb LGBT	101
Cymunedau amrywiol	102
Pobl anabl	103
12. PRYDAIN FYD-EANG	105
Prydain fyd-eang	107
Diplomyddiaeth	108
Amddiffyn	110
Datblygu	112

RHAGAIR

Mae Llafur Cymru mewn grym yng Nghymru ac rydym eisiau sefydlu partneriaeth wirioneddol gyda Llywodraeth Lafur y DU.

Gyda mwy o fewnfuddsoddi nag erioed, amserau ymateb ambiwlans cyflymach a'r canlyniadau TGAU gorau erioed yng Nghymru, mae Llafur Cymru yn cyflawni ar y pethau sydd yn bwysig i bobl. Ond does dim amheuaeth; rydym yn gwneud hyn gydag un llaw wedi ei glymu y tu ôl i'n cefnau. Mae'r Torïaid yn San Steffan wedi treulio saith mlynedd yn torri ein cyllidebau - toriadau o dros biliwn o bunnau. Mae hynny'r un peth â'r gyllideb iechyd flynyddol gyfan ar gyfer Gogledd Cymru - ni allwn adael i hynny barhau. Ni allwn adael i'r Torïaid sathru ar Gymru.

Mae angen Llywodraeth Lafur ar Gymru yn San Steffan sydd yn rhannu ein huchelgais - a'ch uchelgais chi - ar gyfer ein cymunedau.

Maniffesto Llafur Cymru yw'r hyn y gallwn ni ei wneud gyda'n gilydd - gyda'ch cefnogaeth chi. Mae'n datblygu'r ymrwymïadau hanfodol sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi gan Jeremy a'i dîm. Ond, i Lafur Cymru, mae datganoli yn golygu rhywbeth - y cyfle i gyflawni i Gymru, ac mae'n bwysig ein bod yn gallu esbonio'r hyn y gall Llafur Cymru ei wneud, gan gyflawni fel tîm yng Nghymru - yn San Steffan, y Cynulliad ac mewn cynghorau ar draws y wlad.

Trwy gydweithio gyda phlaid y DU, rydym wedi dwyn argymhellion ymlaen fydd yn gwneud Cymru yn wlad decach, fwy llewyrchus - gyda grym yn agosach at y bobl. Trwy gydweithio, byddwn yn diddymu tollau Pont Hafren, gan roi'r cymorth y mae busnesau a chymudwyr yn gofyn amdano. Trwy gydweithio, byddwn yn atal y celwyddau ynghylch Morlun Llanw Abertawe, a thrydaneiddio'r rheilffordd yng Ngogledd Cymru - byddwn yn gwneud i'r pethau hyn ddigwydd a, thrwy gydweithio, byddwn yn datganoli plismona i Gymru - gan wneud ein cymdogaethau yn fwy diogel ar ôl blynyddoedd o doriadau ac esgeulustod gan y Torïaid.

Gyda Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi ymrwymo i wrthdroi toriadau'r Torïaid, a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus unwaith eto, bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn ymrwymo i Adolygiad Gwariant llawn. Bydd hyn yn ein galluogi

ni i fuddosddi arian o ganlyniad i hynny mewn meysydd blaenoriaeth i Gymru - creu swyddi, y GIG a'n hysgolion a'n colegau.

Mae'r Torïaid eisiau gwneud yr etholiad hwn am Brexit, sydd yn gwbl eironig o ystyried y llanast llwyr y maent wedi gwneud o hynny hyd yn hyn. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi creu cynllun cynhwysfawr fydd yn gwneud i Brexit weithio i Gymru - a gweithio i'r DU gyfan. Pam? Am ein bod wedi rhoi swyddi a'r economi gyntaf - gwyddom fod pobl eisiau swyddi gwell, yn agosach at eu cartrefi. Dyna ffocws Llafur. I'r Torïaid asgell dde, mae hyn yn ymwneud â rhywbeth arall - gweledigaeth gul fydd yn aberthu buddiannau economi fodern er budd ideolog hynafol.

Mae'n rheswm arall pam y mae angen ASau Llafur Cymru arnom yn San Steffan, i wneud i Brexit weithio i Gymru - gwyddom na fydd y Torïaid yn gwneud hynny.

Ond, nid etholiad Brexit yw hwn. Refferendwm y llynedd oedd hwnnw, ac rydym yn parchu'r canlyniad. Na, mae'n rhaid i'r etholiad hwn fod am y saith mlynedd o fethiant y Torïaid a'r methiant i gyflawni eu haddewidion.

Mae'r Torïaid wedi gwneud y wlad hon yn fwy cas, yn dlotach, yn llai. Mae'n amser i frwydro'n ôl ac anfon neges i'r Torïaid.

Mae angen Llywodraeth Lafur gref a thîm Llafur Cymru mawr yn San Steffan yn brwydro dros yr achosion sydd yn bwysig - ni yw'r unig rai all eu herio.

Ni yn unig all greu rhwystredigaeth iddynt. Ni yn unig all fynd â neges o degwch a gobaith i lawr Tŷr Cyffredin. Mae Llafur Cymru yn unedig yn eu bwriad i atal y Torïaid a dod â thegwch ac uniondeb yn ôl i Lywodraeth San Steffan.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn gyflawni'r addewid hwnnw - ac fe wnawn ni Sefyll dros Gymru.

Carwyn Jones

Arweinydd Llafur Cymru a Phrif Weinidog Cymru

Christina Rees

Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru



RHAGAIR

Rhan fawr o fod yn arweinydd plaid wleidyddol yw eich bod yn cyfarfod â phobl ar draws y wlad ac yn clywed ystod eang o safbwyntiau a syniadau am y dyfodol. I mi, mae wedi fy atgoffa bod ein gwlad yn lle sydd yn llawn pobl ddeinamig, garedig a chreadigol â chryn botensial.

Ond rwyf hefyd wedi clywed rhywbeth llawer llai cadarnhaol, rhywbeth sydd yn ein hysgogi ni yn y Blaid Lafur i weithio dros y math o newid gwirioneddol sydd wedi ei nodi yn y manifestio hwn. Mae'n ymdeimlad cynyddol o bryder a rhwystredigaeth.

Trwy wynebu safonau byw sydd yn gostwng, ansicrwydd cynyddol ynghylch swyddi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n crebachu, mae pobl o dan straen cynyddol. Mae pobl ifanc yn cael eu dal yn ôl gan ddyled a chostau tai. Mae teuluoedd cyfan yn cael eu dal yn ôl o'r bywyd y maent wedi gweithio amdano.

Rwy'n clywed am y pwysau hyn yn y gweithle yn barhaus. Gan wynebu toriadau ac ymyrraeth barhaus, mae ein heddlu, ein nyrsys, ein meddygon, ein hathrawon a staff cynghorau yn cael eu dal yn ôl rhag cyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus y maent wedi ymrwymo i'w wneud.

Caiff gweithwyr eu dal yn ôl gan ostyngiadau gwirioneddol mewn tâl a diogelwch swyddi. Mae ein hentrepreneuriaid a'n rheolwyr yn cael eu dal yn ôl rhag tyfu eu busnesau. Os gofynnir yn gynyddol i chi wneud mwy gyda llai, yna nid ydych ar eich pen eich hun.

Mae pob etholiad yn ddewis. Yr hyn sydd yn gwneud yr etholiad hwn yn wahanol yw bod y dewis yn llymach nag erioed o'r blaen. Gallwch ddewis mwy o'r un peth: y cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach, mwy o blant mewn tlodi, ein GIG yn methu a'n hysgolion a'n gofal cymdeithasol mewn argyfwng. Neu gallwch bleidleisio dros blaid sydd â chynllun i newid hyn i gyd – Y Blaid Lafur.



Prydain yw'r pumed wlad gyfoethocaf yn y byd. Ond nid yw hyn yn golygu llawer pan nad yw llawer o bobl yn rhannu'r cyfoeth hwnnw. Mae llawer yn teimlo bod y system yn eu herbyn, a nod y manifestio hwn yw nodi'n union beth y gellir ei wneud ynghylch hynny.

Mae angen i Brydain drafod cytundeb Brexit sydd yn rhoi ein heconomi a'n safonau byw gyntaf. Ni chyflawnir hynny gan sloganau gwag a smalio. Ni allwn roi ein cysylltiadau â'n partner masnachu mwyaf mewn perygl. Yn lle hynny, mae angen Brexit arnom sydd yn rhoi swyddi gyntaf er mwyn uwchraddio ein heconomi ar gyfer yr 21ain ganrif.

Bydd Llafur yn buddsoddi mewn swyddi a diwydiannau o'r radd flaenaf y dyfodol all wella bywydau pawb. Dyma pam y mae'r manifestio

hwn yn amlinellu rhaglen wedi ei chostio'n llawn i uwchraddio ein heconomi. O ofal plant i drafnidiaeth, tai i ddysgu gydol oes, mae Llafur yn deall sut y mae economi lwyddiannus yn dibynnu ar wasanaethau sy'n ein cefnogi ni i gyd.

Felly ydy, mae'r etholiad hwn yn ymwneud â pha fath o wlad yr ydym eisiau bod ar ôl Brexit. Ai'n lle y mae'r mwyafrif yn cael eu dal yn ôl gan y frwydr o gael dau pen llinyn ynghyd? Nid dyna'r Brydain y mae Llafur yn benderfynol o'i chreu.

Felly beth am greu Prydain decach lle nad oes unrhyw un yn cael ei ddal yn ôl. Gwlad lle mae pawb yn gallu datblygu, cael sicrwydd yn y gwaith ac yn y cartref, cael tâl gweddus am y gwaith y maent yn ei wneud, ac i fyw eu bywydau gyda'r urddas y maent yn ei haeddu.

Beth am greu gwlad lle'r ydym yn buddsoddi yn ein hiechyd er mwyn rhoi'r cyfle gorau i bawb. Mae hynny'n golygu adeiladu'r cartrefi sydd eu hangen i'w rhentu a'u prynu, cadw ein cymunedau yn ddiogel gyda mwy o swyddogion yr heddlu, rhoi'r cyllid sydd ei angen gymaint ar ysgolion ein plant, ac adfer y GIG i'w safle fel testun edmygedd y byd.

Peidiwch â gadael i'r Ceidwadwyr ddal Prydain yn ôl.

Dewch i ni greu Prydain sydd yn gweithio i'r niferoedd, nid yr ychydig rai.

Jeremy Corbyn
Arweinydd y Blaid Lafur

EIN HADDEWIDION I GYMRU



BARGEN DEG I'N HECONOMI



BARGEN DEG I'N HECONOMI

Diolch i waith Llywodraeth Llafur Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein heconomi yn gryfach, mae mwy o bobl mewn gwaith ac mae miloedd o unigolion wedi cael cyfleoedd newydd i wella eu bywydau a'u gyrfaedd gyda sgiliau newydd.

Mae Cymru wedi gweld mwy o fewnffuddsoddi nag erioed; swyddi o ansawdd uchel yn sgil buddsoddiadau mawr fel Aston Martin a General Dynamics ac mae sectorau fel awyrfod a diwydiannau creadigol yn datblygu enw da o safon fyd-eang. Cafodd bron 150,000 o swyddi eu cefnogi gan Lywodraeth Llafur Cymru yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad gyda rhaglenni blaenllaw fel Twf Swyddi Cymru yn helpu dros 17,000 o bobl ifanc i gael swyddi o ansawdd da.

Bydd Llywodraeth Llafur y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Llafur Cymru i ddatblygu'r sylfeini cadarn hyn a gwireddu'r nod a rennir o Swyddi Gwell yn Agosach at Gartrefi. Economi sydd yn creu economi decach, mwy llewyrchus i'r niferoedd, nid yr ychydig rai.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant economaidd nid yn ôl nifer y miliynyddion ond trwy allu pobl i gael dau ben llinyn ynghyd.

Mae Llafur yn deall bod creu cyfoeth yn ymdrech ar y cyd – rhwng buddsoddwyr, gwasanaethau cyhoeddus a llywodraethau. Mae pob un yn cyfrannu ac mae'n rhaid i bob un rannu'r enillion yn deg.

Mae gan Llafur Cymru enw da yn cefnogi busnes a'n heconomi. Mae cyfres o ymyriadau cyflym a deallus fel gweithredu i achub diwydiant dur Cymru; adfywio Maes Awyr Caerdydd a datblygu partneriaeth newydd gyda'r busnesau Cymreig sy'n ganolog i'n dinas ac ardaloedd twf wedi gwneud economi Cymru yn gryfach.

Mae ein hymagwedd yn cael effaith gadarnhaol. Mae anweithgarwch economaidd yn gostwng yn gyflymach nag y mae ar draws y DU ac mae cyfradd busnesau newydd yn uwch nag erioed. Ers datganoli, mae nifer y bobl mewn cyflogaeth wedi cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yn y DU. Mae Cymru'n arddangos buddion Llywodraeth

Llafur ddeallus sydd yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda busnesau ac undebau llafur.

Mae'r manifest o hwn yn ymwneud â cham nesaf ein gwaith a sicrhau bod Llywodraeth Llafur y DU yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghymru i ailgydbwyso'r economi i wneud iddi weithio i bawb. Bargaen deg i'n heconomi.

O ganlyniad i gyni'r Toriaid, mae chwe miliwn o bobl yn ennill llai na'r cyflog byw gwirioneddol ac mae gormod yn ansicr ac mewn gwaith â thâl isel.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd, bydd Llywodraeth Llafur y DU a Chymru yn trawsnewid hyn. Gyda chynllun buddsoddi cenedlaethol dros 10 mlynedd i uwchraddio economi Prydain, byddwn yn cefnogi isadeiledd ar draws y wlad, a all ysgogi twf economaidd a chreu miloedd o swyddi medrus sydd yn talu'n dda.

Fel y mae pob person busnes yn gwybod, mae angen buddsoddi er mwyn llwyddo a thyfu. Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn dwyn ei chynlluniau uchelgeisiol ymlaen ar gyfer isadeiledd newydd, yn cynnwys ffordd liniaru'r M4, gwella'r A55 yng Ngogledd Cymru, trydaneiddio'r rheilffordd a Metros De a Gogledd Ddwyrain Cymru.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a busnesau trwy'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru, wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Llafur Cymru, i gyflwyno newid gwirioneddol, hirdymor i'r cymoedd. Byddwn yn creu swyddi newydd; yn cynyddu lefelau sgiliau; yn gwella gwasanaethau lleol ac yn cynyddu'r buddion o ddatblygiadau isadeiledd yn Ne Cymru.

Bydd y twf sy'n cael ei greu gan gynllun buddsoddi cenedlaethol y DU, wedi ei ategu gan reolaeth economaidd gyfrifol sydd wedi ei hymgorffori yn ein Rheol Hygrededd Ariannol, yn creu swyddi da, yn gwella safonau byw ac yn gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n gynllun fydd yn cyflawni gweledigaeth Llafur o economi sydd yn gweithio i'r niferoedd nid yr ychydig rai – Prydain lle nad oes unrhyw un yn cael ei ddal yn ôl naill ai gan dlodi neu ddiffyg cyfle.

SYSTEM DRETHIANT DEG

Mae trethiant yn cynnal ein cymdeithas a'n ffyniant. Rydym i gyd, yn cynnwys busnesau, yn elwa ar boblogaeth iach, fedrus wedi ei haddysgu gyda mynediad i wasanaethau sylfaenol a thai diogel.

Rydym yn credu yn y ddyletswydd gymdeithasol i gyfrannu at gynllun trethian deg er budd pawb. Byddwn yn derbyn y pla cymdeithasol o osgoi treth trwy ein Rhaglen Tryloywder a Gorfodaeth Treth, ac yn dileu ffyrdd o osgoi treth.

Ond ni fyddwn yn gofyn i aelwydydd cyffredin dalu mwy. Bydd llywodraeth Lafur yn sicrhau dim cynnydd mewn treth incwm i'r rheiny sydd yn ennill llai nag £80,000 y flwyddyn, a dim cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol personol na'r gyfradd TAW.

Gyda chynlluniau Llafur, bydd 95% o drethdalwyr yn cael sicrwydd o ddim cynnydd yn eu cyfraniadau treth incwm a bydd bawb yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol personol a TAW. Dim ond 5% o'r enillwyr uchaf fydd yn cyfrannu mwy mewn treth er mwyn helpu i ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn adnewyddu ein haddewid i beidio ymestyn TAW i fwyd, dillad plant, llyfrau a phapurau newydd a ffioedd trafndiaeth gyhoeddus.

Mae treth gorfforaeth yn y DU yn is nag yn unrhyw economi ddatblygedig fawr. Bydd ein setliad newydd gyda busnesau yn gofyn i gorfforaethau mawr dalu ychydig mwy tra'n cadw treth gorfforaeth y DU gyda'r isaf ymysg economïau datblygedig mawr. Yn ei dro, byddwn yn bodloni'r angen busnes am weithlu mwy medrus gyda refeniw treth gorfforaeth ychwanegol tra'n cyfrannu at gyllidebau addysg a sgiliau.

Byddwn yn diogelu busnesau bach trwy ailgyflwyno cyfradd elw bach isaf y dreth gorfforaeth. Byddwn hefyd yn eithrio busnesau bach rhag cynlluniau

costus i gyflwyno adroddiadau chwarterol ac yn gweithredu ar daliadau hwyr.

Bydd Llafur yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i HMRC weithredu'n llym ar yr ychydig unigolion a chwmnïau diegwyddor sydd yn ceisio osgoi'r cyfrifoldebau y mae'r gweddill ohonom yn eu bodloni.

MANTOLI'R GYFRIFLEN

Mae ein maniffesto wedi ei gostio'n llawn, gyda'r holl wariant cyfredol yn cael ei dalu trwy drethiant neu ffrydiau refeniw wedi eu hailgyfeirio. Mae'n rhaid i'n gwasanaethau cyhoeddus fod yn seiliedig ar gyllid cadarn. Bydd Llafur felly yn gosod y targed o ddileu diffyg y llywodraeth o ran gwariant o ddydd i ddydd yn y pum mlynedd nesaf.

Mae gan Lafur Cymru ymagwedd gyfrifol tuag at gyllid – rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd, ond teg yn ymwneud â gwariant trwy gydol y degawd diwethaf o gyllidebau sy'n crebachu. Wrth i Lywodraeth Lafur newydd ddechrau gwrthdroi'r blynyddoedd o doriadau niweidiol y Torïaid, a buddsoddi unwaith eto mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, byddwn yn cynnal Adolygiad Gwariant gyda'r bwriad o ddyrannu cyllid canlyniadol Cymreig yn ein meysydd blaenoriaeth allweddol – creu swyddi, buddsoddi yn y GIG a chynnal momentwm newydd mewn addysg.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth ganolbwyntio ar y ffordd yr ydym yn ennill, yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn gwario. Tra'n dileu'r diffyg cyfredol, bydd Llafur hefyd yn buddsoddi yn ein dyfodol, er mwyn sicrhau twf cyflymach a'n helpu i dalu'n ffordd fel gwlad unwaith eto.

Er mwyn cynnal iechyd ariannol da, byddwn yn sefydlu rheol gadarn i gyfeirio ein holl benderfyniadau trethiant a gwariant. Mae ein Rheol Hygrededd Ariannol yn seiliedig ar yr egwyddor syml na ddylai llywodraeth fod yn benthyg ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd, ond bod twf y dyfodol yn dibynnu ar fuddsoddiad. Cafodd ei dylunio ar y cyd ag economegwyr blaenllaw y byd. Mae hefyd yn golygu ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod y ddyled genedlaethol yn is ar ddiwedd y Senedd nesaf nag y mae heddiw.

Bydd cydymffurfio â'r rheol yn cael ei oruchwyllo gan Swyddfa sy'n Gyfrifol am Gyllidebau cwbl annibynnol ac wedi ei chryfhau, fydd yn atebol

i'r Senedd. Byddwn yn ymgynghori ar weithredu argymhellion Adolygiad Kerslake y Trysorlys.

BUDDSODDI MEWN ISADEILEDD

Mae buddsoddi mewn isadeiledd yn hanfodol i wella cynhyrchiant a thwf Cymru a chreu economi gynaliadwy ym mhob rhan o'r wlad. Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur y DU i sefydlu rheolau caeth i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei rannu'n deg o amgylch pob rhanbarth a gwlad yn y DU.

Bydd Llafur yn manteisio ar gyfraddau llog gyda'r isaf erioed bron i greu Cronfa Drawsnewid Genedlaethol fydd yn buddsoddi £250bn ar draws y DU dros 10 mlynedd i uwchraddio ein heconomi a sicrhau bod ein hisadeiledd yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Bydd y gronfa yn gweithio gyda Banc Datblygu i Gymru i gefnogi'r amodau ar gyfer twf economaidd cryfach ym mhob rhan o Gymru.

Bydd y Gronfa Drawsnewid Genedlaethol hefyd yn gweithio gyda Chomisiwn Isadeiledd Cenedlaethol Cymru i gefnogi cynllunio anghenion buddsoddi ac isadeiledd hirdymor a all gefnogi twf economaidd.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi datblygu model partneriaeth gyhoeddus-breifat newydd, fydd yn darparu £1bn o fuddsoddiad ychwanegol mewn ysgolion, ysbytai a ffyrdd newydd, gan gefnogi ein rhaglen isadeiledd cyfalaf cyhoeddus uchelgeisiol o £5bn.

Byddwn yn trawsnewid ein systemau ynni, yn bydduoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a nwy carbon isel newydd, o'r radd flaenaf.

Nid oes llawer o bethau sydd yn fwy hanfodol i fusnesau a'n heconomi na chysylltedd rhynggrwyd cyflym a dibynadwy. Trwy brosiectau Superfast Cymru rydym yn rhoi mynediad i fand eang cyflym i'r rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yng Nghymru na all gael mynediad iddo trwy raglenni masnachol y sector preifat. Mae gan ryw 630,000 o adeiladau yng Nghymru bellach fynediad o ganlyniad i Superfast Cymru a byddwn yn parhau â'r cynnydd da yr ydym wedi ei wneud er mwyn cyflwyno cysylltedd gwell.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella cwmpas rhynggrwyd symudol ac ymestyn darpariaeth wi-fi cyhoeddus am ddim. Byddwn yn gwella cwmpas 4G ac yn buddsoddi er mwyn sicrhau bod gan bob ardal drefol, yn ogystal â phrif ffyrdd a rheilffyrdd, 5G di-dor.

O'r cychwyn cyntaf, byddwn yn hysbysu'r Comisiwn Isadeiledd Cenedlaethol, gan weithio gyda'i gorff partner yng Nghymru, i adrodd ynghylch sut i gyflwyno 'ultrafast' (300Mbps) ar draws y DU yn y degawd nesaf.

CYMORTH I DDIWYDIANT

Mae ein heconomi yn dioddef gan fod Llywodraeth Geidwadol y DU yn gwrthod buddsoddi'n iawn mewn twf i'r dyfodol a'r bobl sy'n gwneud iddo weithio. Mae'r potensial hwn sy'n cael ei wastraffu yn ein dal yn ôl. Mae anghydraddoldeb wedi cynyddu'n gyflym wrth i'r economi symud tuag at swyddi tâl isel, ansicr.

Mae sylfaen cynhyrchu Prydain wedi dirywio ac rydym wedi dibynnu gormod ar y sector ariannol, yn canolbwyntio ar Lundain a'r De Ddwyrain. Tra bod De Ddwyrain Lloegr yn cael anhawster gyda chost gynyddol yr argyfwng byw, mae rhannau eraill o'r DU wedi gweld eu heconomiâu a'u cymunedau'n cael eu gadael ar ôl. Gellir gweld methiant Prydain i wneud i'w economïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol weithio yn nirywiad cyfrif cyfredol y wlad, twf gwan mewn cynhyrchiant a thanfuddsoddi mewn isadeiledd.

Dim ond os yw pob gwlad a rhanbarth yn cael yr adnoddau a'r cymorth i lwyddo y gall Prydain fod yn gryfach. Dim ond Llywodraeth Lafur y DU gyda strategaeth ddiwydiannol gredadwy all gyrraedd y potensial hwn sydd heb ei ddefnyddio a chyflwyno ffyniant i bob cornel o'n gwlad, gan weithio gyda gweinyddiaethau datganoledig.

Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn datblygu ymagwedd newydd tuag at dwf economaidd sy'n cefnogi economïau rhanbarthol Cymru ac yn creu swyddi gwell yn agosach at gartrefi.

Bydd buddsoddiad cydgysylltiedig Llafur mewn isadeiledd ar lefel y DU a Chymru yn gwneud ein cymunedau yn lleoedd gwell i fasnachu a buddsoddi ynddynt, ac yn rhoi'r hyder i fusnesau gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur y DU yn y dyfodol i annog buddsoddi preifat trwy dynnu gwaith a pheiriannau newydd o gyfrifiadau cyfradd busnes.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o ymchwil ac arloesi sy'n cael ei ariannu gan y Llywodraeth o dan arweiniad yr Athro Graeme Reid. Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur y DU i sicrhau bod Cymru'n cael cyfran deg o gyllid YaD y DU i gefnogi ein heconomi.

TRAWSNEWID EIN SYSTEM ARIANNOL

Degawd ar ôl yr argyfwng ariannol rhyngwladol dinistriol, mae ein system ariannol yn dal i ddal gormod o'n busnesau bach a'n heconomiâu lleol yn ôl. Gan weithio gyda'n gilydd ar draws y DU, bydd Llafur yn trawsnewid y ffordd y mae ein system ariannol yn gweithredu. Gan ddilyn enghraifft llwyddiannus yr Almaen a'r gwledydd Nordig, byddwn yn sefydlu Banc Buddsoddi Cenedlaethol y DU fydd yn dod â chyllid cyfalaf preifat i mewn er mwyn rhoi grym benthyg o £250bn.

Bydd y sefydliad cyhoeddus newydd hwn yn gweithio gyda Banc Datblygu i Gymru i gefnogi twf cymhwysol ym mhob cymuned. Bydd y bartneriaeth yn cyflwyno'r cyllid sydd ei angen ar ein busnesau bach, ein cydweithfeydd a'n prosiectau arloesol ar draws y wlad i gyd. Trwy gydweithio, byddwn yn llenwi bylchau sy'n bodoli o ran benthyca gan fanciau preifat, yn arbennig i fusnesau bach, a thrwy ddarparu cyllid hirdymor i fuddsoddiadau sydd yn ddwys o ran YaD.

Bydd Llafur yn trawsnewid rheoleiddio ein system ariannol, gan sefydlu ardal derfyn gadarn rhwng buddsoddi a bancio manwerthu fydd yn diogelu defnyddwyr. Byddwn yn sefydlu ymagwedd newydd tuag at yr RBS cyhoeddus newydd, ac yn lansio ymgynghoriad ar rannu'r banc i greu banciau cyhoeddus lleol newydd sydd yn cyd-fynd yn well ag anghenion eu cwsmeriaid.

Byddwn yn ymestyn y Dreth Stamp Wrth Gefn bresennol i gynnwys ystod ehangach o asedau, gan sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfran decach o elw'r system ariannol.

Bydd Llafur yn newid y gyfraith fel na all banciau gau cangen lle mae angen lleol amlwg, gan roi eu cwsmeriaid gyntaf. Mae gan Brydain ddiwydiant ariannol rhyngwladol llwyddiannus, ond mae angen system fancio gadarn, ddiogel a defnyddiol yn gymdeithasol arnom hefyd er mwyn bodloni anghenion economi Cymru a'n cymunedau. Byddwn yn ymrwymo i greu system fancio fwy amrywiol, wedi ei chefnogi gan ddeddfwriaeth.

BARGEN DEG I FUSNESAU CYMRU

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn chwarae yn ôl y rheolau: maent yn talu eu gweithwyr a'u trethi yn deg ac ar amser; maent yn gweithredu gyda pharch i'r amgylchedd a chymunedau lleol.

Dyna pam y mae'n hanfodol bod y llywodraeth yn sicrhau bod busnesau sydd yn gwneud y peth iawn yn cael eu gwobrwyo yn hytrach na thalu rhy ychydig iddynt neu eu bod yn cael eu trechu gan yr ychydig diegwyddor sydd yn torri corneli, o ran trethi neu amodau gweithwyr.

Ond nid yw ein diwylliant busnes yn gweithio fel hyn. Mae gwarth fel methiant BHS yn dangos sut y gellir aberthu twf hirdymor cwmni er mwyn gwneud elw cyflym.

Pan fydd rhanddeiliaid yn edrych am elw cyflym yn y tymor byr, maent yn annog cwmnïau i dorri corneli. Mae hynny'n golygu eu bod yn torri cyflogau yn lle buddsoddi yn yr hirdymor neu'n treulio mwy o amser yn meddwl am gynlluniau ar gyfer osgoi treth nag y maent yn dyfeisio cynnyrch newydd.

Trwy ddiwygio'r rheolau y mae ein cwmnïau yn gweithredu yn unol â nhw, gallwn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar rannu cyfoeth. Bydd Llafur yn diwygio cyfraith cwmnïau fel bod gan gyfarwyddwyr ddyletswydd nid yn unig i randdeiliaid, ond i gyflogaion, cwsmeriaid, yr amgylchedd a'r cyhoedd a byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno deddfwriaeth briodol yn y Senedd hon.

Bydd Llafur yn diwygio'r gyfundrefn feddiannu er mwyn sicrhau bod gan fusnesau sydd wedi eu nodi i fod yn 'bwysig yn systemig' gynllun clir wedi ei sefydlu i amddiffyn gweithwyr a phensiynwyr pan fydd cwmni'n cael ei feddiannu. Bydd Llafur hefyd yn deddfwriaethu i leihau anghydraddoldeb tâl trwy gyflwyno Ardoll Tâl Gormodol i gwmnïau â staff ar dâl uchel iawn.

Ein busnesau bach a chanolig (BBaChau) yw asgwrn cefn ein heconomi. Mae newidiadau technolegol, fel lledaeniad cynhyrchu digidol a chyfathrebu cyflym, yn golygu mai busnesau bach, cyflymach fydd dyfodol ein heconomi. Eto, mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi cymryd busnesau bach yn ganiataol. Llafur yw plaid busnesau bach. Rydym yn deall yr heriau y mae ein busnesau bach yn eu hwynebu yng Nghymru.

Er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar lawer o fusnesau, bydd Llywodraeth Lafur y DU a Chymru, trwy gydweithio, yn:

- Nodi ble mae benthycwyr eraill yn methu bodloni anghenion BbaChau ac yn roi blaenoriaeth i fenthycwyr er mwyn gwella'r bwlch ariannu.
- Ailsefydlu'r gyfradd dreth gorfforaeth is i fusnesau bach.
- Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn cyflwyno cynllun lliniaru cyfraddau busnes bach parhaol newydd yn 2018-19, sydd yn ymateb i anghenion unigryw Cymru. Byddwn yn parhau i adolygu cyfraddau busnes er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng cymorth i wasanaethau cyhoeddus a chymorth i fusnesau bach i dyfu. Byddwn yn diwygio'r weithdrefn apeliadau ac rydym wedi dechrau adolygiad o'r system cyfraddau busnes tymor hwy.
- Diddymu adroddiadau chwarterol ar gyfer busnesau â throsiant o lai na £85,000.
- Yn datgan rhyfel ar daliadau hwyr trwy:
- Ddefnyddio caffaeliad y llywodraeth i sicrhau bod unrhyw un sy'n gwneud cais am gontract y llywodraeth yn talu ei gyflenwyr ei hun o fewn 30 o ddiwrnodau.
- Datblygu fersiwn o system Awstralia o fynd gerbron canolwr a dirwyon ar gyfer y rheiny sydd yn talu'n hwyr yn barhaus ar gyfer y sectorau preifat a chyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio gyda chwmnïau technoleg i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol i fuddsoddi ac yn rhoi cymorth i fusnesau newydd uwchraddio a dod yn fusnesau digidol o safon fyd-eang.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Llafur Cymru i ddwyn deddfwriaeth ymlaen i greu diffiniad cyfreithiol cywir ar gyfer perchnogaeth gydweithredol. Bydd Banc Buddsoddi Cenedlaethol y DU a Banc Datblygu i Gymru yn cefnogi ein sector cydweithredol er mwyn ei wneud yn gyfartal â'r rheiny mewn economïau blaenllaw fel yr Almaen neu'r UD.

YNNI CYNALIADWY

Mae polisi ynni Llafur yn canolbwyntio ar dair egwyddor syml:

- Sicrhau diogelwch cyflenwad ynni a 'chadw'r golau ymlaen'
- Sicrhau bod costau ynni yn fforddiadwy i ddefnyddwyr a busnesau
- Sicrhau ein bod yn bodloni ein targedau newid hinsawdd a newid i economi carbon isel

Mae system ynni'r DU wedi dyddio, mae'n ddrud ac yn llygru. Mae preifateiddio wedi methu cyflenwi system ynni sy'n cyflenwi ar gyfer pobl, busnesau neu ein hamgylchedd.

Mae un mewn deg o aelwydydd mewn tldi tanwydd, ond eto canfu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fod cwsmeriaid yn gordalu £2bn enfawr bob blwyddyn.

Mae Llafur yn deall nad oes gan lawer o bobl amser i siopa o amgylch. Maent eisiau ynni dibynadwy a fforddiadwy. Felly bydd y Llywodraeth Llafur nesaf yn:

- Cyflwyno cap ar brisiau ar unwaith er mwyn sicrhau bod bil ynni dau danwydd arferol aelwyd yn aros o dan £1,000 y flwyddyn, tra'n bod yn newid i system decach i'r rheiny sydd yn talu'r biliau
- Yn dod ag ynni yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus er mwyn cyflwyno ynni adnewyddadwy, fforddiadwyedd i gwsmeriaid, a rheolaeth ddemocrataidd. Byddwn yn gwneud hyn yn y camau canlynol:
 - Adfer rheolaeth dros rwydweithiau cyflenwi ynni trwy newid amodau trwyddedu Gweithredwyr Rhwydwaith Cenedlaethol a Rhanbarthol
 - Cefnogi creu cwmnïau a chydweithfeydd ynni cyhoeddus, sy'n atebol yn lleol i gystadlu yn erbyn cyflenwyr ynni preifat

presennol, gydag un o leiaf ym mhob rhanbarth

- Deddfwriaethu i ganiatáu cwmnïau cyhoeddus i brynu isadeiledd y grid rhanbarthol, a sicrhau bod isadeiledd y grid cenedlaethol a rhanbarthol yn dod yn berchen i'r cyhoedd dros amser

Bydd Llafur yn inswleiddio pedair miliwn o gartrefi fel blaenoriaeth isadeiledd er mwyn helpu'r rheiny sy'n dioddef mewn cartrefi oer bob gaeaf. Bydd hyn yn lleihau allyriadau, yn gwella iechyd, yn arbed ar filiau ac yn lleihau tldi tanwydd a marwolaethau yn ystod y gaeaf.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru eisoes yn buddsoddi £104m dros y pedair blynedd nesaf yn ein cynllun blaenllaw Cartrefi Cynnes.

Bydd perchenogion tai yn cael cynnig benthyciadau di-log i wella eu heiddo. I'r rheiny sydd yn rhentu, bydd Llafur yn gwella rheoliadau effeithlonrwydd ynni presennol landlordiaid ac yn ailsefydlu lwfans arbed ynni landlordiaid er mwyn annog ymgymeriad mesurau effeithiolrwydd.

Bydd Llafur yn gwahardd ffracio am y byddai'n ein cloi mewn isadeiledd ynni yn seiliedig ar danwydd ffosil, ymhell ar ôl 2030 pan mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn dweud y mae'n rhaid i nwy yn y DU leihau'n sylweddol. Mae hyn yn datblygu gwaith Llywodraeth Llafur Cymru i gyflwyno moratoriwm cynllunio ar geisiadau ar gyfer ffracio.

Bydd technolegau sydd yn dod i'r amlwg fel cipio a storio carbon yn helpu'r trawsnewid i danwydd glanach a diogelu swyddi presennol fel rhan o'r cymysgedd ynni yn y dyfodol. Er mwyn diogelu'r diwydiant olew a nwy ar y môr, byddwn yn darparu strategaeth sydd yn canolbwyntio ar ddiogelu asedau hanfodol Môr y Gogledd, a'r swyddi a'r sgiliau sy'n dibynnu arnynt.

Rydym wedi ymrwmo i brosiectau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys morlynnoedd llanw,

a all helpu i greu swyddi cynhyrchu ac ynni yn ogystal â chyfrannu at ymrwymïadau newid hinsawdd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi datgan dro ar ôl tro ein hymrwymiad i forlwynoedd llanw a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg gan brosiect braenaru Abertawe. Mae ganddynt y potensial i gefnogi cynhyrchu a chadwyni cyflenwad yng Nghymru yn ogystal â chyfrannu at ein hymrwymïadau newid hinsawdd.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn cefnogi ac yn hybu creu ynni adnewyddadwy fel rhan o'n hymagwedd i leihau dibyniaeth ar ynni o danwydd ffosil. Bydd targedau ar ynni adnewyddadwy, yn cynnwys ynni cymunedol, yn cael eu gosod yr haf hwn.

Mae gan y DU ddiwydiant niwclear hynaf y byd, a bydd ynni niwclear yn parhau'n rhan o gyflenwad ynni'r DU. Byddwn yn cefnogi prosiectau niwclear pellach ac yn diogelu swyddi a phensiynau gweithwyr niwclear. Mae cyfleoedd sylweddol am bŵer niwclear a datgomisiynu yn rhyngwladol ac yn ddomestig.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghymru i gyflwyno prosiect pwysig Wylfa Newydd yn llwyddiannus a sicrhau gwaddol economaidd gynaliadwy ar gyfer Ynys Môn ac economi ehangach Gogledd Cymru.

Datblygu economi glân y dyfodol yw'r peth pwysicaf y mae'n rhaid i ni ei wneud i'n plant, ein hwyrion a chenedlaethau'r dyfodol. Eto, dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi gweld methiant i ddatblygu tuag at ein targedau. Bydd llywodraeth Lafur yn ein rhoi yn ôl ar y llwybr cywir i fodloni'r targedau yn y Ddeddf Newid Hinsawdd a Chytundeb Paris.

Yr economi carbon isel yw un o sectorau'r DU sydd yn tyfu gyflymaf, gan greu swyddi a darparu buddsoddiad ar draws pob rhanbarth. Cyflogodd tua 447,000 o gyflogeion yn y DU yn 2015 a chafwyd trosiant o fwy na £77bn. Gyda

chefnogaeth gan lywodraeth Lafur, gall y sectorau hyn sicrhau cyfran hanfodol o farchnadoedd allforio byd-eang.

Ar hyn o bryd, mae'r DU yn prynu ac yn gwerthu tariff ynni am ddim o Ewrop, trefniant sydd yn arbed arian i deuluoedd a busnesau, ac sy'n helpu i gydbwysu'r grid pŵer. Fel rhan o drafodaethau Brexit, bydd Llafur yn rhoi blaenoriaeth i gynnal mynediad i'r farchnad ynni fewnol. Bydd Llafur hefyd yn cynnal mynediad i Euratom, er mwyn caniatáu i fasnach deunydd ymholtool barhau, gyda mynediad a chydweithredu ynghylch ymchwil yn hanfodol i'n diwydiant niwclear.

PENNOD 02

TRAFOD BREXIT



TRAFOD BREXIT

Mae Llafur Cymru yn derbyn canlyniad y refferendwm a bydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn rhoi budd y genedl gyntaf. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i swyddi a safonau byw, yn datblygu perthynas newydd, agos gyda'r Undeb Ewropeaidd, yn amddiffyn hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol, yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE ac yn rhoi swyddogaeth ystyrlon i'r Senedd a Llywodraeth Cymru trwy gydol y trafodaethau.

Byddwn yn dod ag ymagwedd ddiotal Theresa May tuag at Brexit i ben, ac yn ceisio uno'r wlad gyda chytundeb Brexit sy'n gweithio i bob cymuned ym Mhrydain. Mae'n siarad am bwysigrwydd sicrhau cytundeb sydd yn diogelu economi'r DU ac yn rhoi'r sylfaen ar gyfer buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus: ond ei hobsesiwn gyda materion haniaethol fel union rôl Llys Cyfiawnder Ewrop a'i hymosodiadau gwleidyddol ar ein partneriaid Ewropeaidd sydd yn peryglu canlyniad o'r fath.

Byddwn yn diddymu Papur Gwyn Brexit y Ceidwadwyr a'i ddisodli gyda blaenoriaethau trafod newydd â phwyslais cryf ar gadw buddion Marchnad Sengl a'r Undeb Tollau – sydd yn hanfodol i gynnal diwydiannau, swyddi a busnesau ym Mhrydain. Bydd Llafur bob amser yn rhoi swyddi a'r economi gyntaf.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi galw'n barhaus ar Lywodraeth y DU i sicrhau hawliau holl ddinasyddion yr UE sydd yn byw yng Nghymru ac i sicrhau hawliau dinasyddion y DU sydd yn byw mewn aelod-wladwriaethau eraill. Bydd Llywodraeth Lafur newydd yn sicrhau hawliau ar unwaith i holl ddinasyddion yr UE sydd yn byw ym Mhrydain ac yn sicrhau'r un hawliau i ddinasyddion y DU sydd wedi dewis byw mewn gwledydd eraill yn yr UE. Mae dinasyddion yr UE nid yn unig yn cyfrannu at ein cymdeithas: nhw yw ein cymdeithas, ac ni ddylid eu defnyddio fel ffordd o fargeinio.

Mae'n gywilyddus bod y Prif Weinidog wedi gwrthod ceisiadau gan Lafur i ddatrys y mater hwn cyn tanio Erthygl 50. O ganlyniad, mae tair miliwn o ddinasyddion yr UE wedi dioddef ansicrwydd diangen, yn yr un modd ag 1.2 miliwn o ddinasyddion y DU sydd yn byw yn yr UE.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi darparu arweinyddiaeth o ran sefydlu cynllun credadwy a chynhwysfawr ar gyfer trafodaethau Brexit yn ein Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cymru. Mae hwn yn seiliedig ar chwe blaenoriaeth allweddol:

- Yn fwyaf pwysig, yr angen i sicrhau mynediad llawn a dilyffethair i'r Farchnad Sengl i gefnogi busnesau, a sicrhau swyddi a ffyniant Cymru i'r dyfodol;
- Ymateb i bryderon am agweddau ar fudo trwy gysylltu mudo yn y dyfodol â chyflogaeth a thrwy orfodi deddfwriaeth yn erbyn camfanteisio ar weithwyr yn llawer llymach;
- Ar gyllid a buddsoddi, yr angen i Lywodraeth y DU gyflawni'r addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm na fyddai Cymru yn colli ceiniog o gyllid o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE ac i sicrhau cyfranogiad parhaus mewn ystod o raglenni fel Horizon 2020 ac Erasmus+ sydd yn amlwg o fudd i Gymru;
- Yr angen am berthynas gyfansoddiadol cwbl wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU – yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, dod i gytundeb trwy gydsynio, a mecanwaith datrys anghytundeb annibynnol, newydd – unwaith y mae'r DU yn gadael yr UE;
- Yr angen i gynnal amddiffyniadau a gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol yr ydym yn eu gwerthfawrogi yng Nghymru, yn arbennig hawliau gweithwyr, unwaith na fydd y rhain bellach yn cael eu sicrhau trwy aelodaeth y DU o'r UE; a
- Phwysigrwydd ystyried trefniadau pontio er mwyn

sicrhau nad yw'r DU yn mynd dros ochr y dibyn o ran ei berthynas economaidd ac ehangach gyda'r UE os nad yw trefniadau hirdymor wedi cael eu cytuno wrth ymadael.

Mewn gwrthgyferbyniad, bydd Brexit Ceidwadol yn gwanhau hawliau gweithwyr, yn dadreoleiddio'r economi, yn torri trethi corfforaethol, yn rhoi atebolrwydd Seneddol a democrataidd i'r naill ochr ac yn torri Prydain i ffwrdd o'n cynghreiriau agosaf a'n partneriaid masnachu pwysicaf.

Mae Llafur Cymru yn cydnabod mai gadael yr UE gyda 'dim cytundeb' yw'r fargen waethaf posibl i Brydain ac y byddai'n niweidio ein heconomi a'n masnach. Byddwn yn gwrthod 'dim cytundeb' fel dewis ymarferol ac os oes angen, byddwn yn trafod trefniadau pontio er mwyn osgoi ochr y dibyn i economi'r DU.

Bydd y materion sy'n effeithio ar ein cyfandir bellach yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol – a bydd Llafur yn San Steffan ac yng Nghymru – yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'r UE a gwledydd Ewropeaidd eraill ar faterion fel newid hinsawdd, argyfyngau ffoaduriaid a gwrthderfysgaeth. Byddwn yn datblygu perthynas gydweithredol agos yn y dyfodol gyda'r UE, nid fel aelodau ond fel partneriaid.

Bydd Llywodraeth Lafur yn sicrhau bod y DU yn cadw ein rôl ymchwil flaenllaw trwy geisio aros yn rhan o Horizon 2020 a'i raglenni olynol a thrwy groesawu staff ymchwil i'r DU. Byddwn yn ceisio cynnal aelodaeth o sefydliadau Ewropeaidd (neu gydb berthynas gyfwerth gyda nhw) sydd o fudd i'r DU, fel Euratom ac Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd. Byddwn yn ceisio sicrhau bod Prydain yn dal yn rhan o gynllun Erasmus fel bod gan fyfyrwyr Prydain yr un cyfleoedd addysgol ar ôl i ni adael yr UE.

Yr UE yw partner masnachu unigol mwyaf y DU mewn cynnyrch amaethyddol, gyda mwyafrif helaeth allforion Prydain yn cael eu gwerthu i

farchnadoedd Ewropeaidd. Bydd llywodraeth Lafur yn dod â'r ansicrwydd i ben i'n ffermwyr a'n cynhyrchwyr bwyd trwy sicrhau mynediad parhaus i farchnad yr UE trwy alluogi ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Prydain i barhau i werthu eu cynnyrch ar y Cyfandir.

Bydd Llafur hefyd yn amddiffyn ein ffermwyr a'r economi wledig trwy sicrhau bod Prydain yn parhau i osod y safonau uchaf o ran ansawdd bwyd a lles. Ni fyddwn yn caniatáu i Brexit gael ei ddefnyddio fel esgus i dalu llai i'n ffermwyr ni a gorlifo cadwyn fwyd Prydain â chynnyrch rhad, salach.

Byddwn yn gollwng Bil Diddymu Mawr y Ceidwadwyr, ei ddisodli â Bil Hawliau ac Amddiffyniadau'r UE fydd yn sicrhau nad oes unrhyw newid niweidiol i hawliau gweithwyr, cyfraith cydraddoldeb, hawliau defnyddwyr nac amddiffyniadau amgylcheddol o ganlyniad i Brexit.

Trwy gydol proses Brexit, byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfreithiau sy'n deillio o'r UE sydd o fudd – yn cynnwys cyfreithiau'r gweithle, hawliau defnyddwyr ac amddiffyniadau amgylcheddol – yn cael eu diogelu'n llawn heb gymwysterau, cyfyngiadau na chymalau machlud. Byddwn yn gweithio gydag undebau llafur, busnesau a rhanddeiliaid i sicrhau bod cytundeb ar y mater hanfodol hwn. Bydd ymagwedd Llafur tuag at Brexit yn sicrhau na ellir mynd yn ôl ar hawliau ac amddiffyniadau allweddol ac nad yw'r DU yn syrthio y tu ôl i Ewrop o ran amddiffyniadau yn y gweithle a safonau amgylcheddol yn y dyfodol.

Mae'r UE wedi cael effaith sylweddol ar sicrhau amddiffyniadau yn y gweithle a diogelwch amgylcheddol. Ond rydym i gyd yn gwybod i lawer o gefnogwyr Brexit yn y Blaid Doriaidd, dyma pam yr oeddent eisiau Gadael - er mwyn chwalu rheoliadau a gwanhau hawliau ac amddiffyniadau y brwydrwyd i'w cael

Ni fydd Llafur byth yn ystyried yr hawliau hyn yn faich nac yn derbyn gwanhau hawliau gweithwyr, hawliau defnyddwyr nac amddiffyniadau amgylcheddol.

Bydd Llywodraeth Lafur yn cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn trefniadau diogelwch cenedlaethol a chyfiawnder troseddol o ganlyniad i Brexit.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae asiantaethau ar draws ffiniau, fel Eurojust ac Europol wedi ei chwarae yn gwneud Prydain yn fwy diogel a bod Gwarantau Arestio Ewropeaidd wedi bod yn amhrisiadwy. Bydd Llywodraeth Lafur yn ceisio cynnal aelodaeth o'r asiantaethau ac yn parhau â threfniadau Gwarantau Arestio Ewropeaidd.

Bydd Llafur yn ceisio cael cytundeb Brexit sydd yn cyflawni i bob rhanbarth a gwlad yn y DU. Byddwn yn cyflwyno 'rhagdybiaeth datganoli' lle mae pwerau sy'n cael eu trosglwyddo o'r UE yn mynd yn syth i'r rhanbarth neu'r genedl berthnasol ac ni fydd yn rhaid gwneud unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth datganoli bresennol, sydd yn cyfyngu pwerau sefydliadau wedi eu datganoli ynghylch polisiau datganoledig, fel yr amgylchedd ac amaethyddiaeth. I lawer o bobl, ac i lawer o'n gwlad, gall pŵer deimlo mor bell ac anatebol yn San Steffan ac y mae ym Mrwsel. Felly mewn Llywodraeth Lafur yn San Steffan, byddwn yn ceisio rhoi pwerau mor agos i gymunedau â phosibl.

Bydd Llafur yn sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yng Nghyllid Strwythurol yr UE o ganlyniad i Brexit nes diwedd cylch cyllido presennol yr UE. Fel rhan o gynlluniau Llafur i ailgydbwyso ac ailadeiladu'r economi, byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw ranbarth na gwlad yn y DU wedi ei heffeithio gan dynnu cyllid yr UE yn ôl ar gyfer gweddill y Senedd hon. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ariannu prosiectau heddwch a chymodi yng Ngogledd Iwerddon.

Byddwn hefyd yn gwella ymgysylltu a deialog gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn ceisio sicrhau bod y cytundeb Brexit terfynol yn mynd i'r afael â phryderon penodol. Yn arbennig, bydd Llafur yn sicrhau na fyddwn yn dychwelyd i ffin gadarn rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ac nad oes unrhyw newid yn statws na sofraniaeth Gibraltar. Byddwn hefyd yn amddiffyn economi Gibraltar ac yn sicrhau y gall ei lywodraeth barhau i greu swyddi a ffyniant yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Theresa May eisiau diddymu craffu a herio. Bydd Llafur yn ei groesawu. Byddwn yn gweithio gyda'r Senedd, nid yn ei herbyn. Ar fater mor bwysig â hyn, ni all y Llywodraeth guddio rhag y cyhoedd na'r Senedd.

Mae ymagwedd Llafur tuag at Brexit hefyd yn golygu deddfwriaethu i sicrhau bod gan y Senedd bleidlais wirioneddol ystyrlon ar gytundeb terfynol Brexit.

MEWNFUDO

Mae Llafur yn cynnig rheolau teg a rheolaeth resymol yn ymwneud â mewnfudo.
Mewn trafodaethau masnachu mae ein blaenoriaethau yn ffafrio twf, swyddi a ffyniant.
Nid ydym yn ymddiheuro am roi'r nodau hyn cyn targedau mewnfudo ffug.

Bydd rhyddid i symud fel yr ydym ni yn ei adnabod yn dod i ben pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd system fewnfudo Prydain yn newid, ond ni fydd Llafur yn gwneud mudwyr yn fwch dihangol nac yn eu beio am fethiannau economaidd.

Bydd Llafur yn datblygu ac yn gweithredu rheolau mewnfudo teg. Ni fyddwn yn gwahaniaethu rhwng pobl o hil neu gredoau gwahanol. Byddwn yn dod â charcharu diderfyn i ben ac yn gwahaniaethu rhwng llafur mudol ac ymlyniad teuluol a byddwn yn parhau i gefnogi gwaith yr Uned Priodas Dan Orfod. Byddwn yn disodli trothwyon incwm gyda gwaharddiad ar ddigolledu arian cyhoeddus. Bydd y rheolau newydd yn cael eu llywio gan drafodaethau gyda'r UE a phartneriaid eraill, yn cynnwys y Gymanwlad.

Beth bynnag yw ein trefniadau masnachu, bydd angen systemau rheoli mudo newydd arnom, sydd yn dryloyw ac yn deg i bawb. Gweithio gyda busnesau, undebau llafur, llywodraethau datganoledig ac eraill i nodi prinder penodol o ran llafur a sgiliau.

Trwy gydweithio, byddwn yn sefydlu system newydd sydd yn seiliedig ar ein hanghenion economaidd, cydbwyso rheolyddion a hawliau presennol. Gallai hyn gynnwys noddi gan gyflogwyr, trwyddedau gwaith, rheoliadau fisa neu gymysgedd wedi ei deilwra o'r rhain i gyd sydd yn gweithio i'r niferoedd, nid yr ychydig rai.

Bydd Llafur yn amddiffyn y rheiny sydd eisoes yn gweithio yma, beth bynnag fo'u hethnigrwydd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn cynyddu lefel sgiliau a hyfforddiant. Byddwn yn cymryd camau pendant i ddod â chamfanteisio ar lafur mudol trwy daliadau is ac amodau gwael i ben.

Bydd Llafur yn gweithredu'n llym yn erbyn

cyflogwyr diegwyddor. Byddwn yn atal arferion recriwtio dramor yn unig, yn cryfhau archwiliadau diogelwch yn y gwaith ac yn cynyddu erlyn cyflogwyr sy'n osgoi talu'r isafswm cyflog.

Gan weithio gydag undebau llafur, byddwn yn dod â chamwahaniaethu yn y gweithle i ben.

Mae Llafur yn gwerthfawrogi cyfraniadau economaidd a chymdeithasol mewnudwyr. Mae cyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat yn dibynnu ar fewnfudwyr. Ni fyddwn yn pardduo'r gweithwyr hyn. Rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau, yn cynnwys eu cyfraniadau treth.

Ar gyfer ardaloedd lle mae mewnfudo wedi rhoi straen ar wasanaethau cyhoeddus, byddwn yn ailsefydlu'r Gronfa Effaith Mudwyr a rhoi hwb iddo gydag elfen gyfraniadol o'r buddsoddiadau sy'n ofynnol ar gyfer Fisas Unigol Gwerth Net Uchel. Bydd Llafur yn adfer hawliau gweithwyr domestig mudol ac yn dod â'r math modern hwn o gaethwasiaeth i ben.

Bydd Llafur yn lleddfu'r pwysau sylfaenol mewn unrhyw ardal sydd yn cael anhawster yn ymdopi gyda saith mlynedd o gynydd gyda'n rhaglen o fuddsoddiadau. Ni fyddwn yn torri gwasanaethau cyhoeddus ac yn esgus bod y toriadau o ganlyniad i fewnfudo.

Nid mudwyr yw ffoaduriaid. Maent wedi cael eu gorfodi o'u cartrefi gan ryfel, newyn neu argyfyngau eraill. Yn wahanol i'r Toriaid, byddwn yn cynnal y traddodiad Prydeinig balch o anrhydeddu ysbryd cyfraith ryngwladol a'n dyletswyddau moesol trwy dderbyn cyfran deg o ffoaduriaid. Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer tai a gwasgaru ffoaduriaid yn addas at y diben. Nid ydynt yn deg i ffoaduriaid nac i'n cymunedau. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn.

Mae Llafur yn croesawu myfyrwyr rhyngwladol sydd yn cael budd o'n sector addysg ac yn ei gryfhau, gan greu dros £25 biliwn i economi Prydain a rhoi hwb sylweddol i swyddi a busnesau lleol. Nid ydynt yn drigolion parhaol ac ni fyddwn yn eu cynnwys ymysg niferoedd mewnudwyr, ond byddwn yn llym ar golegau ffug.

MASNACH RYNGWLADOL

Mae Llafur Cymru o blaid masnach ac o blaid buddsoddi. Mae ffyniant y DU i'r dyfodol yn dibynnu ar leihau rhwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn rhai tariff sydd yn ein hatal rhag allforio a chreu'r swyddi a'r twf economaidd sydd ei angen arnom.

Bydd Llywodraeth Lafur yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu strategaeth masnach a diwydiannol integredig sydd yn hybu allforio, buddsoddi a swyddi gweddus ym Mhrydain.

Bydd Llafur yn gosod ein blaenoriaethau mewn Papur Gwyn Masnach Ryngwladol i arwain trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol polisi masnach Prydain. Byddwn yn sicrhau tryloywder gwirioneddol a chraffu seneddol ar yr holl gytundebau masnach a buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r UE yn rhoi cyfrif am 44% o allforion presennol y DU a 67% o allforion o Gymru. Dyna pam y mae mynediad llawn a dilyffethair parhaus o'r Farchnad Sengl mor hanfodol i'n dyfodol hyd yn oed wrth i'n perthynas fasnachu gyda'r UE newid.

Trwy ein menter Just Trading, a lansiwyd yn 2016, bydd Llafur yn gweithio gyda phartneriaid masnachu byd-eang i ddatblygu'r cytundebau masnach rydd a buddsoddi 'gorau o'u bath' sydd yn dileu rhwystrau masnachu ac yn hybu swyddi medrus a safonau uchel. Byddwn yn sicrhau bod yr holl gytundebau masnach yn y dyfodol yn diogelu'r hawl i reoleiddio er budd y cyhoedd ac i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i system fasnachu ryngwladol yn seiliedig ar reolau Sefydliad Masnachu'r Byd (WTO). Byddwn yn ailymuno â Chytundeb Caffael y Llywodraeth, tra'n diogelu gallu cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau caffael yn unol ag amcanion polisi cyhoeddus.

Bydd Llafur yn datblygu hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol mewn polisi masnachu. Byddwn yn sicrhau na all cytundebau masnach danseilio hawliau dynol a safonau llafur ac nad yw cymorth Cyllid Allforio'r DU ar gael i gwmnïau sydd yn ymwneud â llwgrwobrwyo nac arferion llwgr.

Byddwn yn gweithio gydag aelodau eraill WTO i ddod â gollwng nwyddau wedi eu cynnal gan y wladwriaeth yn ein marchnadoedd i ben. Fe wnaeth y Ceidwadwyr atal ymdrechion yr UE i ymateb i ollwng o'r fath yn barhaus gyda'r dyletswyddau oedd eu hangen i amddiffyn diwydiant dur Prydain, er gwaethaf pwysau gan Lywodraeth Llafur Cymru i beidio gwneud hynny. Bydd Llafur yn datblygu'r ystod lawn o atebion masnach sydd eu hangen i gefnogi sectorau allweddol sydd wedi eu heffeithio gan yr arferion annheg hyn.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi sefydlu ystod o fesurau i gefnogi BBaChau, i allforio ac ymgysylltu'n rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan yn hyrwyddo buddiannau allforio BBaChau, gan sicrhau bod yr holl drefniadau masnachu newydd yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi eu hanghenion o ran mynediad i'r farchnad.

Bydd Llywodraeth Lafur yn defnyddio'r ystod lawn o offer hyrwyddo credyd, cyllid, yswiriant a masnach allforio i hybu allforion Prydain a chefnogi sectorau diwydiannol sy'n flaenoriaeth a bydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Llafur Cymru i hyrwyddo buddiannau allforio a buddsoddi busnesau ar draws y DU.

Mae Llafur wedi ymrwymo i gynyddu'r economi ddigidol a sicrhau nad yw trefniadau masnach yn rhwystro llif data ar draws ffiniau, tra'n cynnal rheolau diogelu data cryf i ddiogelu preifatrwydd personol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddyfodol carbon isel, byddwn yn cefnogi trafodaethau rhyngwladol tuag at Gytundeb Nwyddau Amgylcheddol yn y WTO. Bydd Llafur yn defnyddio trafodaethau masnach i hybu mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ynghyd â chymorth i fuddsoddi mewn technolegau gwyrdd newydd a chynnyrch carbon isel arloesol.

Bydd Llywodraeth Lafur yn datblygu cynlluniau buddsoddi cyfalaf a mentrau eraill i annog buddsoddi yn y DU, yn arbennig i ardaloedd targed a nodir fel blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn hyrwyddo'r DU fel amgylchedd buddsoddi diogel.

Bydd Llafur yn adolygu ein cytundebau buddsoddi hanesyddol gyda gwledydd eraill, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae Llafur yn gwrthwynebu systemau anghydfod buddsoddwr-wladwriaeth ar gyfer corfforaethau rhyngwladol a byddwn yn agor trafodaeth gyda phartneriaid masnachu ar opsiynau amgen sydd yn rhoi diogelwch tra'n sicrhau tegwch gerbron y gyfraith.

BARGEN DEG AR GYFER ADDYSG



BARGEN DEG AR GYFER ADDYSG

O dan arweinyddiaeth Carwyn Jones, mae momentwm newydd mewn addysg yng Nghymru. Mae'r polisïau a gyflwynwyd gan lywodraethau olynol Llywodraeth Lafur wedi codi safonau i bawb; yn cynorthwyo ein disgyblion tlotaf i ffynnu ac yn rhoi cyfle i filoedd gael sgiliau newydd ar gyfer gwaith.

Mae canlyniadau TGAU yn well nag erioed o'r blaen; mae'r bwlch cyrhaeddiad yn cau ac mae ein system brentisiaethau yn cyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau a'n heconomi.

Yng Nghymru, nid oes unrhyw arian yn cael ei wastraffu ar ysgolion rhydd ac, yn wahanol i'r Torïaid, ni fyddwn yn ailgyflwyno ysgolion gramadeg ar gyfer yr ychydig breintiedig. Mae ein rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio yn canolbwyntio ar gefnogi pawb ym mhob rhan o Gymru o'r crud i'w gyrfa.

Nawr yw'r amser i gymryd y cam nesaf i ddatblygu system addysg o safon fyd-eang yng Nghymru, yn seiliedig ar degwch o ran parch rhwng gyrfaeodd academiaidd a galwedigaethol, a all ddatblygu potensial pawb a chefnogi economi Cymru nawr ac yn y dyfodol.

Bargen deg i bawb.

Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Fel y blaid dros gydraddoldeb a busnes, a'r blaid sydd bob amser wedi bod yno i deuluoedd sy'n gweithio, rydym wedi gwrandao ar yr alwad am fwy o ofal plant gwell i helpu rhieni – yn arbennig mamau – i barhau ac i ddychwelyd i weithio.

Mae ein Llywodraeth Llafur Cymru yn creu'r cynnig gofal plant mwyaf hael yn y DU i rieni sy'n gweithio – 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos (yn cynnwys yr isafswm presennol o 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar Cyfnod Sylfaen am ddim) ar gyfer rhieni plant tair a phedair oed, 48 wythnos y flwyddyn.

Yn wahanol i'r Ceidwadwyr yn Lloegr, rydym yn cymryd amser i ymgynghori â rhieni, gweithwyr gofal plant proffesiynol, darparwyr gofal plant ac ystod eang o randdeiliaid.

Yn wahanol i ymagwedd frysiog y Torïaid yn Lloegr, rydym yn cymryd amser i ganfod beth sy'n gweithio i blant, rhieni a darparwyr trwy gynlluniau peilot wedi eu dylunio'n ofalus a chynlluniau cyflwyno graddol, sy'n ein galluogi i ddysgu o weithredwyr cynnar ac addasu ein cynllun lle bo angen.

O fis Medi byddwn yn rhoi'r cynnig ar brawf mewn ardaloedd mewn saith awdurdod lleol. Bydd y prosiectau peilot hyn yn cynnwys tua 10% o deuluoedd cymwys yng Nghymru. Bydd y cynnig yn cynnwys Cymru gyfan erbyn 2021

Mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, bydd pob plentyn dwy a thair oed yn parhau i fod yn gymwys i 12 awr a hanner o ofal plant am ddim yr wythnos a 15 awr o ddarpariaeth gofal plant yn ystod y gwyliau.

Byddwn yn cadw ein rhaglen brecwast am ddim mewn ysgolion, sydd yn hybu presenoldeb a chyrhaeddiad plant ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i rieni sy'n gweithio.

YSGOLION

Er gwaethaf y toriadau dwfn a gyflwynwyd yng Nghymru gan y Torïaid yn San Steffan, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y penderfyniad i flaenoriaethu cyllid ysgolion yng Nghymru.

Er 2011, diolch i'n hamddiffyniad o gyllid ysgolion, mae bron £150m yn ychwanegol wedi cael ei fuddsoddi yn ein hysgolion; rydym wedi cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion ac wedi Diogelu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

Mae Llafur Cymru yn credu mewn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn. Mae dros 10 miliwn o frechwastau am ddim wedi cael eu gweini mewn ysgolion cynradd ar draws Cymru dros y pum mlynedd diwethaf a byddwn yn diogelu cyllid ar gyfer y rhaglen.

Rydym eisiau rhoi terfyn ar blant yn llwgu yn ystod gwyliau'r haf – byddwn yn ariannu clybiau cinio a hwyl ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf.

Rydym wedi cryfhau ein Cyfnod Sylfaen arloesol, sydd yn helpu plant ifanc i brofi dysg sydd yn greadigol ac yn hwyliog. Rydym hefyd wedi sicrhau bod gan blant ifanc sylfeini cadarn mewn llythrennedd a rhifedd trwy gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a phrofion darllen a rhifedd cenedlaethol.

Gan ddechrau ym mis Medi 2018, bydd asesiadau ar-lein arloesol yn lle'r profion ar bapur, sydd yn addasu i alluoedd unigol disgyblion ac yn helpu athrawon i ddysgu'n fwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Trwy ein hysgolion arloesi, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol i ddwyn gwaith adolygiad Donaldson ymlaen a datblygu cwrwclwm ar gyfer Cymru sydd yn barod i'w addysgu yn 2021.

Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i gefnogi cyrhaeddiad pobl ifanc o'r cefndiroedd tlotaf trwy'r Grant Datblygu Disgyblion a'r elfen gyfatebol ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae gan ysgolion gwyb arweinwyr gwyb. Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i hwyluso arweinyddiaeth gref ar bob lefel o'n system addysg trwy sefydlu academi genedlaethol newydd ar gyfer arweinyddiaeth addysg a sefydlu safonau addysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol newydd. Rydym hefyd yn sefydlu meini prawf achredu newydd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb sy'n cael eu cyflogi yn y system addysg a bydd yn parhau i weithio gydag undebau llafur cydnabyddedig i wella trefniadau gwaith a datblygiad proffesiynol staff cymorth yng Nghymru.

Mae gan bron chwarter y dysgwyr yng Nghymru rhyw fath o angen dysgu ychwanegol. Byddwn yn cyflwyno system newydd o gymorth ar gyfer y dysgwyr hyn.

SGILIAU

Mae technoleg yn ysgogi'r galw am sgiliau gwahanol ac mae patrymau gwaith sy'n esblygu yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o ddilyn sawl gyrfa yn ystod eu hoes; mae'n hanfodol bod ein system addysg yn galluogi pobl i uwchsgilio ac ailhyfforddi.

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu economi Cymru, byddwn yn cefnogi twf cynhyrchiant trwy alluogi mwy o bobl i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu yn y gweithle i swyddi o ansawdd gwell. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur y DU yn y dyfodol i ddatganoli cyfrifoldeb dros sgiliau pan fydd hyn yn cefnogi ein gwaith.

Byddwn yn cynnal ein hymagwedd i bartneriaeth gymdeithasol a gweithio gyda chyflogwyr trwy Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Byddwn yn ymrwymo i amddiffyn Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac yn gweithio gyda'n partneriaid mewn undebau llafur i sicrhau ein bod yn parhau i wella effeithiolrwydd a chyrhaeddiad y rhaglen.

ADDYSG BELLACH

Mae gan Lywodraeth Cymru bartneriaeth gref gyda sefydliadau addysg bellach i gryfhau economi Cymru. Mae trawsnewid ein rhwydwaith addysg bellach yn golegau cryfach, mwy cynaliadwy yn ariannol, wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr ac wedi sicrhau bod y sgiliau sy'n cael eu creu yn addas at anghenion economi Cymru.

Rydym yn gwella isadeiledd ffisegol colegau Cymru, gyda chyfleusterau dysgu o safon fyd-eang ym Mhontypridd, Caerdydd a Merthyr Tudful; canolfan chweched dosbarth newydd yng Ngholeg Cambria ac ymrwymiad i adeiladu cyfleuster peirianeg arbenigol newydd yn Llangefni. Byddwn yn buddsoddi bron £2bn yn ein rhaglen ysgolion a cholegau'r 21ain ganrif erbyn 2024.

Mae'r ffiniau rhwng addysg uwch ac addysg bellach, a oedd yn amlwg ar un adeg, bellach yn dadelfennu. Er mwyn sicrhau bod y system yn addas at y diben ar gyfer dysgwyr o bob oed, cyflogwyr a'n heconomi, byddwn yn ymgynghori ar sefydlu awdurdod rheoliadol, goruchwyllo a chydlynw unigol newydd ar gyfer y sector addysg ôl-orfodol, fydd yn gyfrifol am ariannu darpariaeth ar bob lefel. Bydd yr awdurdod strategol newydd hwn yn sicrhau ansawdd yn y sector ac yn brif ariannwr ymchwil.

Byddwn yn dyfnhau ein cysylltiadau â chyflogwyr trwy ein partneriaethau sgiliau rhanbarthol. Bydd asesiadau manwl o anghenion sgiliau prosiectau isadeiledd mawr yn sicrhau bod ganddynt y gweithlu sydd ei angen ond hefyd yn sicrhau bod swyddi medrus yn cael eu llenwi'n lleol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cholegau Cymru a'r Gymdeithas Colegau i gefnogi rhaglen arweinyddiaeth colegau. Byddwn yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr a gweithwyr proffesiynol trwy weithio gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn diweddarw eu sgiliau a'u profiad yn barhaus.

PRENTISIAETHAU

Mae ein rhaglen brentisiaeth wedi bod yn llwyddiant ysgubol – yn ystod tymor yma'r Cynulliad byddwn yn mynd ymhellach ac yn creu 100,000 o brentisiaethau bob oed.

Fel rhan o'n gwaith i gefnogi economi Cymru'r dyfodol, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen yn addas ar gyfer cyflogwyr a'r economi.

Bydd ein rhaglen brentisiaethau yn canolbwyntio ar gynyddu'r prentisiaid 16 i 19 oed; yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau; yn datblygu sgiliau lefel uwch ac yn datblygu llwybrau sgiliau.

Ni fyddwn yn gweithredu'r ardoll brentisiaethau fel y mae'r Ceidwadwyr wedi ei wneud yn Lloegr trwy system dalebau. Nid ydym yn gweld unrhyw dystiolaeth y bydd system dalebau yn gwella ansawdd; yn lle hynny bydd yn cyflwyno biwrocratiaeth i gyflogwyr ac ansicrwydd ynghylch sut y caiff cyflogwyr heb ardoll eu cefnogi.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr Cymru i lunio ein rhaglen brentisiaethau o amgylch anghenion dysgwyr a busnesau Cymru.

CYFLOGADWYEDD

Mae sgiliau cyflogadwyedd yn hanfodol i fynd i'r afael â threchgu tlodi oherwydd y cymorth y maent yn ei roi i bobl fynd i mewn, parhau a datblygu mewn cyflogaeth. Rydym yn datblygu cynllun cyflogadwyedd newydd i Gymru, fydd yn annog llwybr eglur ar gyfer ceiswyr swyddi, sydd yn ymateb i'w hanghenion unigol.

Byddwn yn datblygu rhaglen gyflogadwyedd pob oed newydd, sydd yn rhoi cymorth wedi ei deilwra i helpu pobl tuag at ac i mewn i waith. Bydd yn dechrau cael ei gyflwyno yn 2018.

Fel rhan o'r cynllun cyflogadwyedd, rydym yn cynnig datblygu ymagwedd fwy systematig i nodi angen ac atgyfeirio i gymorth cyflogadwyedd trwy wasanaeth cyngor am gyflogaeth wedi ei gryfhau ac unedig. Bydd hyn yn sicrhau ffocws clir a diduedd er mwyn i bobl gael eu cefnogi ar eu taith tuag at ac mewn cyflogaeth.

ADDYSG UWCH

Diolch i Lafur Cymru, mae myfyrwyr mewn addysg uwch wedi cael eu hamddiffyn rhag y ddyled enfawr a brofwyd gan fyfyrwyr prifysgol mewn rhannau eraill o'r DU. Mae lefel gyfredol dyledion myfyrwyr o Gymru tua £20,000 yn llai na'u cyfoedion yn Lloegr.

Rydym yn dwyn argymhellion adolygiad Diamond ymlaen i ail-lunio cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r system newydd yn newid sylfaenol i addysg uwch yng Nghymru a bydd yn mynd i'r afael â llawer o'r materion – fel costau cynhaliaeth cynyddol – y mae myfyrwyr wedi eu nodi. Bydd y pecyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael swm cyfwerth â'r cyflog byw cenedlaethol mewn cynhaliaeth yn ystod y tymor tra'u bod yn astudio.

Bydd y system newydd yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer costau byw myfyrwyr o ddydd i ddydd - ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhan-amser - trwy gymysgedd o grantiau a benthyciadau. Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ariannu astudiaethau ôl-radd ac yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal yn cael y grant cynhaliaeth uchaf posibl.

Dyma fydd y pecyn mwyaf hael o blith holl wledydd y DU.

Mae Llafur Cymru bob amser wedi bod yn glir y dylai addysg fod am ddim ac os yw'r cyllid yn caniatáu hynny, ni ddylai fod unrhyw ffioedd dysgu. Rydym yn cydnabod bod addysg uwch yn gweithredu o fewn cyd-destun y DU. Pan fydd Llywodraeth Lafur yn cael ei hethol yn San Steffan, byddwn yn cynnal adolygiad pellach o effaith unrhyw newidiadau a wneir yn Lloegr ar brifysgolion a myfyrwyr yng Nghymru ac yn dilyn model adolygiad Diamond o ymgynghori â myfyrwyr a chyflogwyr am unrhyw newidiadau yng Nghymru.



BARGEN DEG YN Y GWAITH



BARGEN DEG YN Y GWAITH

Dylai gwaith ddarparu sicrwydd a theimlad o gyflawniad i bobl. Ond i lawer o bobl, nid oes sicrwydd yn eu gwaith ac nid yw'n eu caniatáu i gael dau ben llinyn ynghyd.

Mae'r Ceidwadwyr yn ymffrostio am adferiad cyflogaeth, ond mae ein marchnad lafur yn methu. Mae tâl ar delerau gwirioneddol yn dal yn is nag ydoedd cyn y cwmp, ac mae swyddi'n rhai sgiliau isel ac yn gynyddol ansicr, gyda chyfran gynyddol o gontractau dim oriau a gwaith asiantaeth.

Bydd Llywodraeth Lafur yn buddsoddi mewn gorfodi trwy Weinyddiaeth Lafur newydd ac yn grymuso gweithwyr a'u hundebau llafur, am ein bod yn gryfach pan fyddwn yn sefyll gyda'n gilydd.

Felly byddwn yn adolygu'r rheolau ar gydnabod undebau fel bod gan fwy o weithwyr sicrwydd undeb.

Ar yr un pryd â chryfhau hawliau gweithwyr, byddwn yn gwneud gwaith yn fwy gwerth chweil trwy ddefnyddio buddsoddi cyhoeddus i uwchraddio ein heconomi a chreu swyddi o ansawdd uchel. Tra bod y Ceidwadwyr yn sefyll yn ôl a chaniatáu i waith ansicr ledaenu, a busnesau i frwydro, bydd Llafur yn gweithredu i sicrhau swyddi da a busnesau cryf.

COMISIWN GWAITH TEG A SWYDDI GWELL YN AGOSACH AT GARTREFI

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl waith deg lle gall pawb gael swyddi gwell yn agosach at eu cartref. Gwlad lle gall pawb ddatblygu eu gyrfaedd a lle gallwn ddisgwyl gwaith gweddus sydd yn gwella bywyd heb ddioddef camfanteisio na thlodi.

Bargen deg, lle byddwn yn datblygu ffyniant ac i gyd yn rhannu'r ffyniant hwnnw.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr y gwasanaeth cyhoeddus ac undebau llafur ac rydym yn defnyddio'r strwythurau hyn i sefydlu Comisiwn Gwaith Teg i'n helpu i ddatblygu economi lle gall mwy o bobl gael mynediad i waith da ac incwm diogel.

Bydd y comisiwn yn datblygu'r gwaith da yr ydym eisoes wedi ei wneud i wneud gwaith yn decach gan ddefnyddio'r ystod lawn o'n pwerau datganoledig. Trwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu rydym wedi cyflwyno côd dwy haen, wedi cyhoeddi canllawiau ac egwyddorion ar ddefnyddio contractau heb oriau wedi eu cadarnhau, yn cynnwys contractau dim oriau, ac wedi lansio Côd Ymarfer ar gyfer Caffaeliad Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi er mwyn sicrhau arferion cyflogaeth da ar gyfer y miliynau o gyflogeion sydd yn gysylltiedig â chadwyni cyflenwi sector cyhoeddus.

Rydym hefyd wedi cael y pŵer i hepgor y cap ar daliad gadael gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn deddfwriaethu i ddiddymu Deddf Undebau Llafur niweidiol Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mesurau i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus

datganoledig i lenwi yn ystod gweithredu diwydiannol.

Fel Llywodraeth Llafur Cymru, rydym yn glir, trwy ddefnyddio caffaeliad mewn ffordd fwy creadigol a chydgyssylltiedig, y gallwn gefnogi ein cymunedau trwy fod yn fwy cadarn wrth wynebu'r heriau economaidd sydd o'n blaenau trwy greu economïau lleol a rhanbarthol mwy cynaliadwy ledled Cymru.

Mae hyn yn gofyn am ymagwedd newydd ar draws y llywodraeth i sicrhau bod buddion buddsoddiadau mawr yn cael eu hailgylchu yn ôl i gymunedau Cymru i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol ac ysgogi buddsoddi mewn cymunedau difreintiedig.

Rydym yn creu rhaglen Swyddi Gwell yn Agosach at Gartrefi fydd yn trechu tlodi; datblygu gweithwyr medrus; defnyddio polisi caffael arloesol ac yn cefnogi busnesau i dyfu. Rydym yn sefydlu ystod o brosiectau masnachol i ysgogi creu cyflogaeth ystyrlon mewn cymunedau gyda lefelau uchel o brinder swyddi.

HAWLIAU YN Y GWAITH

Mae Llafur wedi cyhoeddi cynllun 20 pwynt ar gyfer diogelwch a chydaddoldeb yn y gwaith, y bydd yn ei weithredu pan fydd yn ffurfio Llywodraeth nesaf y DU.

Mae hyn yn datblygu'r camau y mae llywodraethau olynol Llafur Cymru wedi eu cymryd i amddiffyn hawliau gweithwyr, yn cynnwys deddfwriaethu i ddiddymu Deddf Undebau Llafur y DU ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru; dod â'r ymarfer o gosbrestru i ben; gorfodi arferion cyflogi moesegol mewn cadwyni cyflenwi a gweithredu i ddileu contractau dim oriau sydd yn camfanteisio ar bobl.

Bydd Llywodraeth Llafur yn sicrhau bod Prydain yn cadw at safonau llafur byd-eang yr ILO.

Dylai pob gweithiwr allu gweithio mewn amgylchedd diogel a dychwelyd at eu teuluoedd ar ddiwedd y dydd. Bydd Llafur yn atgyfnerthu rheoliadau sydd yn achub bywydau.

Yn ogystal â deddfwriaethu yn erbyn contractau dim oriau, mae llawer mwy o weithwyr ar gontractau oriau byr (rhai ond yn cael sicrwydd o ychydig oriau'r wythnos), ond sydd yn gweithio llawer mwy yn rheolaidd. Byddwn yn atgyfnerthu'r gyfraith fel bod gan y rheiny sydd yn gweithio oriau rheolaidd am fwy na 12 wythnos hawl i gontract rheolaidd, sydd yn adlewyrchu'r oriau hynny.

Byddwn hefyd yn diddymu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn 2014 i TUPE, oedd yn gwanhau amddiffyniadau ar gyfer gweithwyr sydd yn trosglwyddo rhwng contractwyr a byddwn yn diddymu'r ffordd y gellir osgoi'r rheoliadau ar gyfer gweithwyr asiantaeth a elwir yn rhanddirymiad Sweden.

Byddwn yn ymgynghori â chyflogwyr ac undebau llafur ar ddeddfwriaethu ar gyfer absenoldeb profedigaeth statudol, ar gyfer amser i ffwrdd o'r

gwaith ar ôl colli aelodau agos o'r teulu. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar wneud y gyfraith yn erbyn ymosod ar weithwyr sydd yn gorfodi cyfreithiau fel gwerthiannau'n ymwneud ag oed neu drefniadau tocynnau, sydd yn cael eu cam-drin yn rheolaidd, yn llymach.

Bydd Llafur yn cynnal System Cymodi Cynnar ACAS i geisio datrys materion gweithleoedd yn gyflym ac yn gyfeillgar.

Bydd Llafur hefyd yn deddfwriaethu i ganiatáu holi barn diogel ar-lein ac yn y gweithle yn ymwneud â phleidleisiau gweithredu diwydiannol ac etholiadau mewnol undebau.

Mae gweithwyr ym Mhrydain ymysg yr hawsaf a'r rhataf i'w diswyddo, sy'n golygu pan fydd cwmnïau rhyngwladol yn gwneud penderfyniadau i leihau, mae gweithwyr Prydeinig dan anfantais. Byddwn yn ymgynghori ag undebau llafur a diwydiant ynghylch adolygu trefniadau diswyddo er mwyn gwneud gweithwyr Prydain yn unol â'u cyfoedion Ewropeaidd.

Mae incwm llonydd wedi gorfodi llawer i gael mwy o ddyled. Bydd Llafur yn cyflwyno fersiwn o Gynllun Trefnu Dyledion yr Alban er mwyn rhoi amser i aelwydydd sydd yn brwydro yn erbyn dyledion uchel.

GWEITHWYR HUNANGYFLOGEDIG

Gall hunangyflogaeth greu llawer o fuddion, rhyddid a hyblygrwydd i bobl – ac mae'n sector hanfodol ac entrepreneuriaidd o'n heconomi yn aml.

Ond mae tystiolaeth gynyddol hefyd bod gweithwyr yn cael eu gorfodi i mewn i hunangyflogaeth gan gyflogwyr diegwyddor er mwyn osgoi costau a'u dyletswyddau i weithwyr. Bydd Llafur yn gweithredu'n llym yn erbyn hunangyflogaeth ffug trwy:

- Symud baich prawf, fel bod y gyfraith yn cymryd bod gweithiwr yn gyflogai oni bai y gall y cyflogwr brofi fel arall.
- Cyflwyno dirwyon cosbol ar gyflogwyr nad ydynt yn bodloni eu cyfrifoldebau, gan helpu i atal pobl eraill rhag gwneud yr un peth.
- Cynnwys undebau llafur wrth orfodi, er enghraifft, trwy roi sedd iddynt ar fwrdd gweithredol y Weinyddiaeth Lafur newydd.
- Rhoi'r adnoddau i'r Weinyddiaeth Lafur i orfodi hawliau gweithwyr.
- Gwahardd cwmnïau cyflogres, a elwir weithiau yn gwmnïau mantell, sydd yn creu strwythur ffug i gyfyngu atebolrwydd treth cyflogwyr a chyfyngu hawliau gweithwyr.
- Rhoi cyfrifoldeb ar y cyd i asiantaethau cyflogaeth a defnyddwyr terfynol dros sicrhau bod hawliau gweithwyr asiantaeth yn cael eu gorfodi.
- Cyflwyno bargeinio sectoraidd ar y cyd a chryfhau hawliau undebau llafur, am mai grymuso pobl i hawlio eu hawliau eu hunain yn y gweithle yw'r ffordd fwyaf effeithiol o orfodi.

Byddwn yn ymestyn hawliau cyflogeion i bob gweithiwr, yn cynnwys tâl wedi ei rannu ar gyfer rhieni, gan wneud gwahaniaeth sylweddol ac uniongyrchol i ansawdd bywyd mewn gwaith ansicr. Ond mae pryderon gwirioneddol bod

newidiadau cyflym i fyd gwaith yn dyddio categorïau cyflogaeth presennol.

Mae Llafur yn cydnabod bod y gyfraith yn aml yn cael anhawster yn cadw i fyny gyda ffurfiau cyflogaeth a gwaith sydd yn newid yn barhaus felly byddwn yn sefydlu comisiwn neilltuol i foderneiddio'r gyfraith yn ymwneud â statws cyflogaeth. Byddai diffiniadau statws cyflogaeth newydd yn lleihau'r angen am ymglyfreithiad ac yn gwella cydymffurfio.

Caiff y comisiwn ei arwain gan arbenigwyr cyfreithiol ac academiaidd gyda chynrychiolaeth gan ddiwydiant ac undebau llafur.

NAWDD CYMDEITHASOL





NAWDD CYMDEITHASOL

Ar ôl saith mlynedd o dlodi ac anghydraddoldeb cynyddol, bydd Llafur yn ailadeiladu ac yn trawsnewid ein system nawdd cymdeithasol.

Fel y GIG, mae ein system nawdd cymdeithasol yno i bawb ohonom pan fyddwn ei angen; gan ddarparu sicrwydd ac urddas yn ystod ymddeoliad a hanfodion bywyd os byddwn yn mynd yn sâl neu'n anabl neu'n profi caledi.

URDDAS I BENSIYNWYR

Bydd Llafur bob amser ar ochr pensiwnyr ac yn helpu i sicrhau diogelwch ac urddas i bobl yn ystod eu hymddeoliad.

Wrth i'r Ceidwadwyr gefnu ar eu hymrwymadau i bobl hŷn, bydd Llafur yn sicrhau "gwarant driphlyg" ar bensiynau'r wladwriaeth trwy gydol y Senedd nesaf. Bydd yn codi o leiaf 2.5% y flwyddyn neu'n cynyddu i gyd-fynd â chwyddiant neu enillion, pa bynnag un sydd uchaf.

Bydd lwfans tanwydd y gaeaf hefyd yn cael ei warantu fel budd-dal cyffredinol.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn tocynnau bws am ddim ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anableddau a'u gofalwyr ac i gadw'r cynllun nofio am ddim poblogaidd.

Byddwn yn amddiffyn pensiynau dinasyddion y DU sydd yn byw dramor yn yr UE neu ymhellach i ffwrdd.

Mae newid wedi bod i oed pensiwn y wladwriaeth dros 2.5 miliwn o fenywod wedi eu geni yn y 1950au heb hysbysiad teg. Mae'r menywod hyn yn haeddu cydnabyddiaeth am yr anghyfiawnder y maent wedi ei ddioddef a rhyw fath o iawndal am eu colledion.

Ynghyd â'n hymrwymiad i ymestyn Credyd Pensiwn i gannoedd o filoedd o'r menywod mwyaf agored i niwed, mae Llafur yn archwilio opsiynau ar gyfer amddiffyniadau pontio pellach er mwyn sicrhau bod yr holl fenywod hyn yn cael diogelwch ac urddas yn eu henaint.

Ni ddylid gadael i hyn ddigwydd eto. Bydd Llafur yn deddfwriaethu fel na all hawliau wedi eu cronni i bensiwn sylfaenol y wladwriaeth newid, ond bydd buddion i'r dyfodol yn gallu newid.

Mae'r oed pensiwn i fod cynyddu i 66 erbyn diwedd 2020. Mae Llafur yn gwrthod cynnig y Ceidwadwyr i gynyddu oed pensiwn y wladwriaeth ymhellach.

Byddwn yn comisiynu adolygiad newydd o'r oed pensiwn, gyda'r dasg benodol o ddatblygu polisi ymddeol hyblyg i adlewyrchu'r cyfraniadau y mae pobl wedi eu gwneud; yr amrywiad eang mewn disgwyliad oes a natur wahanol bywydau gwaith.

Byddwn yn adfer hyder yn y system pensiwn gweithle ac yn gwneud pobl yn hytrach nag elw yn ganolbwynt iddo. Bydd Llafur yn diddymu ffioedd a thaliadau cudd twyllodrus ac yn caniatáu datblygu cronfeydd pensiwn effeithlon mawr fydd yn golygu mwy o arian parod i aelodau cynlluniau a chostau is i gyflogwyr.

Bydd Llywodraeth Llafur yn ymrwymo i adolygu cynllun pensiwn glowyr a gwarged cynllun cronfa bensiwn Glo Prydain ar unwaith gan rannu'r trefniadau rhwng y llywodraeth a buddiolwyr y cynllun.

URDDAS I'R RHEINY NAD YDYNT YN GALLU GWEITHIO

Mae tlodi ym Mhrydain yn cynyddu – oherwydd ymgais y Ceidwadwyr i fantoli'r gyfriflen ar gefn y bobl dlotaf. Maent wedi torri nawdd cymdeithasol dros y saith mlynedd diwethaf, gan adael mwy o bobl mewn tlodi, yn destun cyfundrefn sancsiynau cosbol, ac yn dibynnu ar fanciau bwyd am gymorth.

Bydd Llafur yn gweithredu ar unwaith i ddod ag eithafiaeth newidiadau Llywodraeth Geidwadol i ben. Byddwn yn:

- Diddymu'r gyfundrefn sancsiynau cosbol
- Diddymu'r dreth ystafelloedd gwely
- Adfer budd-dal tai ar gyfer pobl o dan 21 oed
- Diddymu toriadau i daliadau cymorth mewn profedigaeth

Mae'r toriadau i lwfansau gwaith mewn Credyd Cynhwysol (UC) a'r penderfyniad i gyfyngu credyd treth a thaliadau UC i'r ddau blentyn cyntaf mewn teulu, yn ymosod ar deuluoedd incwm isel a bydd yn cynyddu tlodi plant. Bydd Llafur yn diwygio ac yn ailddylunio UC, gan ddileu'r oedi o chwe wythnos wrth dalu a'r 'cymal trais'.

Yng Nghymru, rydym yn ceisio trechu tlodi plant trwy ddatblygu economi gref, lleihau bod heb waith, cynyddu sgiliau, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi teuluoedd i gynyddu incwm eu haelwydydd. Mae'r Toriaid wedi methu cyflawni eu haddewid o wneud i waith dalu a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu.

Mae Llafur yn cefnogi model cymdeithasol anabledd. Gall fod gan bobl gyflwr neu nam ond cymdeithas sy'n eu gwneud yn anabl. Mae angen i ni ddileu'r rhwystrau mewn cymdeithas sydd yn cyfyngu cyfleoedd a dewisiadau ar gyfer pobl anabl.

Byddwn yn datblygu ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Lafur i bobl anabl yn 2009 fel llofnodwyr Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ac yn ei ymgorffori i gyfraith y DU.

Bydd Llafur yn diddymu'r toriadau canlynol mewn cymorth nawdd cymdeithasol i bobl anabl trwy Fil Nawdd Cymdeithasol newydd wedi ei gyhoeddi yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn y swydd i:

- Gynyddu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth £30 yr wythnos ar gyfer y rheiny mewn grŵp gweithgaredd yn ymwneud â gwaith a diddymu toriadau i elfen gallu cyfyngedig i weithio yr UC.
- Cynyddu Lwfans Gofalwyr £11 i lefel Lwfans Ceisio Gwaith.
- Gweithredu penderfyniad y llys yn ymwneud â Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP) fel bod tegwch gwirioneddol o ran urddas y rheiny â chyflyrau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- Diddymu asesiadau'r Gallu i Weithio a'r Taliad Annibyniaeth Personol a chyflwyno proses asesu bersonol, gyfannol yn eu lle sydd yn rhoi cynllun wedi ei deilwra i bob unigolyn, gan ddatblygu eu cryfderau a mynd i'r afael â rhwystrau. Bydd Llafur yn dod â phreifeiddio asesiadau i ben.
- Dod â straen diangen ailasesiadau ar gyfer pobl â chyflyrau hirdymor difrifol i ben
- Comisiynu adroddiad ar ymestyn y rhaglen Mynediad i Waith

Byddwn yn newid diwylliant y system nawdd cymdeithasol, o un sydd yn dirymu pobl i un sydd yn gefnogol ac yn galluogi.

Yn ogystal â diddymu cyfundrefn sancsiynau cosbol y Ceidwadwyr, byddwn yn newid y ffordd y caiff perfformiad staff y Ganolfan Byd Gwaith ei reoli.

Bydd Llafur yn cryfhau mynediad i gyfiawnder ar gyfer pobl anabl trwy wella Deddf Cydraddoldeb 2010 gan alluogi gwahaniaethu yn y gwaith i gael ei herio. Byddwn yn sicrhau, yn unol â Chonfensiwn Istanbul, bod troseddau casineb anabledd a thrais yn erbyn menywod ag anableddau yn cael ei gofnodi'n flynyddol, gyda chynlluniau gweithredu cenedlaethol i fynd i'r afael â'r rhain.

Ni all Llywodraeth Llafur Cymru wella holl effeithiau polisiau lles niweidiol y Ceidwadwyr, ond rydym yn ceisio eu lleddfu trwy gyfres o raglenni wedi eu targedu a pholisiau blaenllaw eraill sydd yn creu "cyflog cymdeithasol" ac yn cefnogi safonau byw, fel ein hymrwymiad i dai cymdeithasol; mynediad i frecwast am ddim mewn ysgolion a phresgripsiynau am ddim.

CARTREFI DIOGEL I BAWB



CARTREFI DIOGEL I BAWB

Y cartref yw calon ein bywydau ni gyd. Y cartref yw'r sylfaen ar gyfer magu ein teuluoedd; sylfaen gadarn ein breuddwydion a'n dyheadau.

Mae gan bawb yr hawl i gael cartref o ansawdd da, a bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i weithio i sicrhau hyn, mewn partneriaeth ag adeiladwyr preifat, y sector rhentu preifat, cynghorau a chymdeithasau tai.

Yn nhymor diwethaf y Cynulliad, adeiladodd Llafur yng Nghymru dros 11,000 o dai fforddiadwy; daeth â 7,500 o dai gwag yn ôl i ddefnydd a helpodd 3,300 o brynwyr tai – 75% ohonynt yn brynwyr y tro cyntaf – i brynu tŷ drwy Cymorth i Brynu - Cymru.

Erbyn 2021, byddwn yn adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy eraill yng Nghymru, gan gynnwys 6,000 drwy Cymorth i Brynu - Cymru a 1,000 drwy ein cynllun newydd rhentu i brynu.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i safleoedd tir llwyd, a lle bynnag y bo modd, yn gwarchod mannau gwyrdd.

Mae adeiladu cartrefi newydd yn chwarae rhan allweddol yn ein cynlluniau i gryfhau ein heconomi, gan gynhyrchu swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi.

Nid yn unig y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn adeiladu mwy, byddwn yn adeiladau'n well hefyd. Mae ein rhaglen Cartrefi Clyd, Nyth ac Arbed, a'n buddsoddiad i godi safonau mewn tai cymdeithasol, yn helpu i leihau biliau tanwydd; yn lleihau nifer y marwolaethau yn y gaeaf y gellir eu hatal ac yn helpu i fodloni ein targedau newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn buddsoddi i ddatblygu dulliau arloesol o adeiladu tai, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd newydd o adeiladu cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Bydd Llafur yn cadw'r Gofrestrfa Tir mewn dwylo cyhoeddus, lle dylai fod.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl Llafur Cymru yn helpu 60,000 o bobl y flwyddyn i fyw'n annibynnol – mae hyn yn cynnwys pobl hŷn, y rhai ag anawsterau dysgu, pobl ifanc sy'n agored i niwed, y rhai sy'n dioddef afiechyd meddwl a phobl sy'n dianc rhag trais domestig.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi sefydlu grŵp arbenigol ar gartrefu poblogaeth sy'n heneiddio er mwyn cynhyrchu syniadau arloesol i ddiwallu anghenion cynyddol pobl hŷn.

PERCHENOGAETH TAI

Bydd Llafur Cymru yn parhau i helpu prynwyr tai. Mae ein targed o adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy erbyn 2021 yn cynnwys 6,000 o dai drwy Cymorth i Brynu - Cymru a 1,000 drwy ein cynllun newydd rhentu i brynu. Bydd yr ymrwymïadau hyn yn rhoi sicrwydd tymor hir i brynwyr y tro cyntaf a'r diwydiant adeiladu tai.

Byddwn yn parhau â'n cynllun Troi Tai'n Gartrefi, a ddaeth â dros 7,500 o eiddo yn ôl i ddefnydd yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad.

Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer rhoi terfyn ar fancio tir. Byddwn yn parhau i weithio gyda datblygwyr ac adeiladwyr tai i nodi rhwystrau rhag adeiladu ac ymchwilio sut allwn ni ddefnyddio'r system gynllunio yn well i adeiladu mwy o gartrefi. Credwn y gall partneriaethau tymor hir helpu i gyflymu'r broses o adeiladu tai sydd ei angen arnom, a'r amgylcheddau o safon a fynnwn.

Byddwn yn cefnogi'r rheiny sy'n berchen ar eu cartrefi, gan gynnwys perchenogion cartrefi sy'n berchen ar eu cartref fel lesddeiliaid ac nad ydynt wedi'u gwarchod ar hyn o bryd rhag cynnydd mewn rhenti tir gan ddatblygwyr neu gwmnïau rheoli. Bydd Llywodraeth Lafur yn rhoi sicrwydd i lesddeiliaid rhag rhenti tir twyllodrus ac yn rhoi terfyn ar y defnydd arferol o dai lesddaliad mewn datblygiadau newydd.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithredu ar unrhyw gamddefnydd o'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru wrth hyrwyddo gwerthiannau lesddaliad mewn datblygiadau newydd.

RHENTWYR PREIFAT

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gweithredu i sicrhau borgen decach i landlordiaid a thenantiaid drwy ddeddfu i gael cynllun cofrestru gorfodol i landlordiaid ac asiantiaid, a symleiddio a rhesymoli'r ddeddfwriaeth tenantiaeth flaenorol.

Erbyn mis Rhagfyr 2016, roedd dros 68,000 o landlordiaid wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru ac roedd 13,000 arall wedi dechrau'r broses. Mae dros 5,000 o landlordiaid ac 800 o asiantiaid wedi'u trwyddedu.

Byddwn yn herio'r sector rhentu preifat i ddatblygu cynlluniau blaendal cyson a theg.

Byddwn yn gweithredu i wahardd ffioedd asiantaethau gosod i denantiaid.

Bydd Llafur yn gwrth-droi'r penderfyniad creulon i ddiddymu budd-dal tai i'r rhai 18 i 21 oed, sy'n peryglu rhoi mwy o bobl ifanc agored i niwed ar ein strydoedd.

TENANTIAID Y CYNGOR A THENANTIAID CYMDEITHASOL

Mae tai cymdeithasol yn rhan allweddol o ymrwymiad Llafur Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod y tymor Cynulliad hwn; fe wnaethom adeiladu 11,000 o gartrefi yn y sector hwn yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad.

Rydym yn galluogi cyngorau a chymdeithasau tai i adeiladu gyda hyder. Rydym yn deddfu i ddiddymu'r hawl i brynu yng Nghymru er mwyn diogelu'r stoc tai cymdeithasol presennol ac yn annog adeiladu cartrefi newydd.

Yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad, helpom awdurdodau lleol i ymadael â'u trefniadau blaenorol gyda Thrysorlys y DU a olygai ad-daliad blynyddol o £70m i'r Trysorlys yn flaenorol. Mae cyngorau Llafur Cymru yn adeiladu tai cyngor eto – cwblhawyd y rhai cyntaf yn Sir y Fflint, lle'r adeiladwyd 82 o dai cyngor neu mae wrthynt yn cael eu hadeiladu.

Bydd Llafur yn diddymu'r dreth ystafell wely gosbol – mae'r mesur creulon a diangen hwn wedi achosi i lawer o bobl gael eu troi allan o'u cartref a'u cymuned. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi buddsoddi dros £40m mewn adeiladu bron i 800 o gartrefi un ystafell wely a dwy ystafell wely ar gyfer y rheiny yr effeithir arnynt gan y dreth ystafell wely.

DIGARTREFEDD

Nid yw digartrefedd yn anochel mewn gwlad mor weddus a chefnog â'n gwlad ni. Bydd Llafur Cymru yn parhau i ymyrryd i roi terfyn ar ddigartrefedd ac i ddarparu amgylcheddau cartref diogel, yn enwedig i'n pobl ifanc.

Cynlluniwyd ein Deddf Tai (Cymru) i sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu bod yn ddigartref yn cael help mor gynnar â phosibl. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio gyda phobl sydd mewn perygl o golli eu cartref o fewn 56 diwrnod er mwyn helpu dod o hyd i ateb i'w problemau. Mae digartrefedd yn cael ei osgoi am o leiaf chwe mis mewn dwy ran o dair o achosion lle mae'r ddyletswydd hon i ymyrryd yn gynnar yn gymwys.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ariannu ystod o wasanaethau i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd drwy'r grant atal digartrefedd, gan gynnwys lloches nos, timau allgymorth a chanolfannau dydd. Mae cymorth pellach ar gael drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru hefyd yn ariannu'r gwasanaeth ffôn Streetlink sy'n galluogi'r cyhoedd i hysbysu ynghylch rhai sy'n cysgu ar y stryd fel y gall yr awdurdod lleol fynd ar eu trywydd. Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) wedi cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol i gynorthwyo'r rhai sy'n cysgu ar y stryd i ddod o hyd i dai dros dro a thai parhaol.

GOFAL IECHYD I BAWB



Ym 1945, yn y cyfnod ar ôl y rhyfel a methdaliad cenedlaethol, Llywodraeth Lafur ddaeth o hyd i'r adnoddau i greu Gwasanaeth Iechyd Gwladol – ein cyflawniad mwyaf balch, yn darparu gofal iechyd cyffredinol i bawb ar sail angen, yn rhad ac am ddim yn y man defnyddio.

Mae Llafur Cymru wedi amddiffyn GIG Cymru rhag ymosodiadau gan y Ceidwadwyr a rhag ad-drefnu aflonyddgar o'r brig i lawr, sydd wedi gwastraffu biliynau o bunnoedd ac wedi chwalu gwasanaethau yn Lloegr. Yng Nghymru, rydym wedi sefyll yn gadarn yn erbyn preifateiddio a byddwn yn cadw'r cymhelliad i wneud elw allan o'n GIG.

Y tro diwethaf y bu'r Torïaid yn rhedeg ein GIG yng Nghymru, cafodd ei amddifadu o gyllid a'i adael mewn cyflwr o danfuddsoddi difrifol. Amddifadwyd ysbytai a chanolfannau gofal iechyd o waith cynnal a chadw hanfodol, anwybyddwyd gofal cymdeithasol a gadawyd i rymoedd y farchnad gynyddu costau darpariaeth iechyd.

Mae Llafur Cymru wedi arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â'r dogma Torïaidd fod elw yn bwysicach nag iechyd a lles cleifion. Rydym wedi cynyddu nifer y nyrsys, meddygon, ymgynghorwyr a meddygon teulu sy'n gofalu am gleifion yng Nghymru, tra'n lleihau nifer y rheolwyr yn raddol. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gwario £160 yn fwy y pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd nag yn Lloegr.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn golygu bod amserau aros ar gyfer profion diagnostig yng Nghymru ar eu hisaf er 2011, ac mae amserau aros ar gyfer triniaeth yn gostwng yn raddol. Cymru yw'r unig ran o'r DU lle bu gwelliant cynaliadwy yn yr amser a gymer i ambiwlansys gyrraedd y galwadau 999 mwyaf argyfyngus.

Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo i ofal yn gostwng yng Nghymru hefyd. Mae hyn yn cyferbynnu'n llym â Lloegr lle maent, o ganlyniad i chwe blynedd o doriadau gan y Ceidwadwyr i gyllid

gofal cymdeithasol, wedi cyrraedd eu lefelau uchaf erioed.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i ganolbwyntio adnoddau ar wasanaethau yn y gymuned fel nad oes rhaid i bobl deithio i gael gofal iechyd. Rydym yn buddsoddi mewn canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf ledled Cymru; yn buddsoddi mewn offer diagnostig newydd ac yn cynyddu cyllid ar gyfer gofal sylfaenol. Mae mwy o feddygfeydd teulu ar agor am oriau hirach ac mae mwy o feddygon teulu yn dod i weithio yng Nghymru.

Rydym wedi diogelu cyllid i fferyllfeydd cymunedol, gan atal y bygythiad o'u cau, ac mae ein Bill Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys mesurau i wella'r ddarpariaeth fferylliaeth gymunedol. Mae presgripsiynau yn dal yn rhad ac am ddim yng Nghymru ar adeg pan fo ffioedd yn parhau i godi yn Lloegr - i fyny dros 20% ers i Lafur Cymru eu diddymu yn 2007.

Bydd cronfa driniaeth £80m newydd yn cyflymu mynediad at feddyginiaethau newydd ac arloesol yng Nghymru ac yn sicrhau mynediad cyfartal ble bynnag rydych yn byw. Byddwn yn mynnu cael cytundebau gwerth am arian gyda chwmnïau fferyllol er mwyn sicrhau bod cleifion y GIG yn gallu cael gafael ar feddyginiaethau newydd yn gyflym.

Yng Nghymru, mae Llafur wedi cyflwyno gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol a bydd llwybr asesu unigol, newydd ledled Cymru i blant yn sicrhau cysondeb ac yn gwneud y system yn gliriach o lawer i deuluoedd.

Mae'r gofal i bobl â chyflyrau cronig, hirdymor yng Nghymru yn gwella diolch i stiwardiaeth Llywodraeth Lafur Cymru o'r GIG – mae marwolaethau o glefyd y galon, strôc a chanser yn gostwng. Rydym wedi cyflwyno datganiad o gynnydd blynyddol i blant â diabetes, a fydd yn helpu gwella eu rheolaeth o'r afiechyd ac yn lleihau risg cymhlethdodau tymor hwy.

IECHYD Y CYHOEDD

Mae traddodiad hir a balch yng Nghymru o weithredu'n radical i wella iechyd y cyhoedd. Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i bleidleisio o blaid gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig, a Llywodraeth Lafur Cymru oedd y gyntaf i weithredu ar ysmegu mewn ceir pan fo plant yn bresennol.

O ganlyniad i'n camau gweithredu ar ysmegu, rydym wedi gweld cyfraddau yn gostwng i 20% - ond byddwn yn mynd ymhellach ac yn lleihau cyfraddau ysmegu ymhlith oedolion i 16% erbyn 2020, gan helpu i atal llai o bobl rhag dioddef, a marw, o afiechydon yn gysylltiedig ag ysmegu.

Mae ein Bil Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys mesurau newydd i ddiogelu plant rhag cael eu hamlygu i fwg ail-law, gan gynnwys mewn rhai lleoliadau awyr agored; i atal tybaco rhag cael ei roi i blant, a mesurau newydd i ddiogelu pobl rhag risg haint sy'n gysylltiedig â thyllu neu datwio. Byddwn yn gwahardd tyllau mewn rhan bersonol o'r corff i bobl o dan 18 oed.

Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i'w gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd arddangos eu sgorau hylendid bwyd yn gyhoeddus – gan roi mwy o ddewis i bobl ynglŷn â ble maent eisiau bwyta a siopa. Llywodraeth Lafur Cymru hefyd wnaeth gyflwyno'r ddeddfwriaeth gyntaf yn y DU i gyflwyno system optio allan ar gyfer rhoi organau, gan gynyddu nifer yr organau sydd ar gael ar gyfer trawsblannu.

Mae iechyd y geg ymhlith plant yn gwella yng Nghymru, ar adeg pan fo gan blant yn Lloegr fwy o ddannedd pwdr, diolch i'n rhaglen arloesol Cynllun Gwên.

Mae lefelau gordewdra yng Nghymru yn sefydlog, ond maent yn dal yn rhy uchel. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn llunio strategaeth genedlaethol ar ordewdra i Gymru a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur ar ei strategaeth gordewdra ymhlith plant, gyda chynigion ar hysbysebu a labelu bwyd.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, a buddsoddwn £50m bob blwyddyn yn lleihau ac yn mynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol.

Mae unigrwydd yn broblem gynyddol i'n cymdeithas, ac fel y dywedodd Jo Cox: "Hen neu ifanc, nid yw unigrwydd yn gwahaniaethu". Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn datblygu strategaeth genedlaethol a thraws-lywodraethol i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

Bydd Llafur yn mynd i'r afael ag anghyfiawnderau hanesyddol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Byddwn yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus i waed halogedig. Byddwn yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus i drwyddedu a rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chynhyrchion meddygol, gan gynnwys Valproate.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ariannu treial tair blynedd ar gyfer PrEP i bawb sy'n gymwys yng Nghymru.

STAFF Y GIG

I warantu'r gwasanaethau gorau posibl i gleifion, bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu iechyd a gofal. Mae gennym gynllun gweithlu hirdymor ar gyfer ein gwasanaeth iechyd, sy'n rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i staff i wneud eu gorau i'w cleifion.

Bydd Llafur yn diddymu cap cyflog y GIG, yn rhoi penderfyniadau ar gyflog yn ôl yn nwylo'r corff adolygu cyflogau annibynnol, ac yn rhoi'r cyflog y maent yn ei haeddu i weithwyr ein GIG. Mae Cymru eisoes wedi deddfu ar lefelau staffio nyrsys mewn wardiau ysbytai aciwt, ac rydym yn falch fod GIG Cymru yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Go lawn.

Uchelgais tymor hir Llafur yw i'n system iechyd gael y staff sydd wedi cael yr hyfforddiant gorau yn y byd, yn barod i ddelio â beth bynnag a wynebant yn y blynyddoedd i ddod. Yn wahanol i Loegr, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi parhau i gefnogi bwrsariaethau a chyllid ar gyfer graddau yn gysylltiedig ag iechyd. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi pecyn £95m i gefnogi ystod o raglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru yn 2017-18, gan alluogi dros 3,000 o fyfyrwyr gofal iechyd newydd ymuno â'r rheiny sydd eisoes yn astudio yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cyflwyno ein hymgyrch 'Dyma Cymru: Hyfforddi, Gweithio, Byw' fesul cam i ddenu mwy o nyrsys i Gymru. Mae cam cyntaf yr ymgyrch, a lansiwyd yn 2017, wedi helpu recriwtio mwy o feddygon, gan gynnwys meddygon teulu, i hyfforddi yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â staff y GIG a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i greu gwasanaeth iechyd yng Nghymru sy'n barod

at y dyfodol – bydd adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn hon.

Bydd Llafur yn gwarantu ar unwaith hawliau staff yr UE sy'n gweithio yn ein gwasanaethau iechyd a gofal. Mae Llafur Cymru yn cefnogi chwythwyr chwiban i GIG i wneud yn siŵr bod ein staff gwasanaeth iechyd yn gallu codi llais i gefnogi'r safonau gorau posibl i gleifion.

ARIANNU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi parhau i fuddsoddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, er gwaetha'r toriadau dwfn y mae'r Ceidwadwyr wedi'u gwneud i'n cyllid cyffredinol. Yn nwy flynedd gyntaf Llywodraeth Llafur Newydd yng Nghymru (2016-17 a 2017-18) byddwn wedi buddsoddi mwy na £500m yn ychwanegol yn y GIG, sy'n gyfwerth â £169 y pen mewn gwariant ychwanegol ar iechyd.

Mae ffigurau'r Trysorlys ei hun yn dangos bod Cymru'n gwario mwy ar iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd nag y mae Lloegr yn gwneud - £160 yn fwy y pen.

Eleni, rydym wedi buddsoddi £55m yn ychwanegol mewn gofal cymdeithasol i helpu ymateb i'r pwysau a'r costau uwch sy'n gysylltiedig â'r cyflog byw cenedlaethol.

Adlewyrchir ein hymrwymiad parhaus i fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y duedd o oedi mewn trosglwyddiadau gofal, sydd wedi gostwng yn gynyddol yng Nghymru dros amser i'w lefelau isaf, ond yn Lloegr maent wedi codi i'r lefelau uchaf erioed.

Mae ein dull o ariannu gofal cymdeithasol yn cyferbynnu'n llwyr â'r dull a fabwysiedir gan y Ceidwadwyr, sydd wedi gadael system o ofal cymdeithasol yn Lloegr sy'n fwyfwy bregus ac yn anaddas i'r diben. Mae Cronfa'r Brenin wedi cyfrifo bod y cyllidebau gofal cymdeithasol yn Lloegr wedi lleihau £5bn dros gyfnod o chwe blynedd.

Mae mwy o bobl yn byw'n annibynnol yng Nghymru o ganlyniad i gyllid parhaus Llywodraeth Lafur Cymru i ofal cymdeithasol. Rydym wedi pasio deddfwriaeth bwysig i ddiwygio'r ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru, gan roi anghenion pobl yn ganolog i wasanaethau. Mae gan ofalwyr yr un hawliau i gael asesiad â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yng Nghymru.

Byddwn yn gweithredu i roi terfyn ar gontractau dim oriau mewn gofal cymdeithasol, a byddwn yn cyflwyno system gofrestru newydd ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol er mwyn proffesiynoli'r sector a rhoi iddo'r parch y mae'n ei haeddu.

Credwn y dylai pawb fod yn gallu pasio rhywbeth ymlaen i'w teulu a'u hanwyliaid - bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn gwneud mwy na dyblu'r cyfalaf y gall pobl ei gadw cyn bod rhaid iddynt ddechrau talu ffioedd gofal preswyl, gan godi'r terfyn o £23,000 i £50,000 erbyn 2021.

IECHYD MEDDWL

Afiechyd meddwl yw her iechyd fwyaf ein hoes nad aethpwyd i'r afael â hi. Bydd rhyw un o bob pedwar o bobl yn y DU yn dioddef problem iechyd meddwl bob blwyddyn.

Mae Llafur Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cymorth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl, ac er bod Lloegr wedi gweld eu cyllidebau iechyd meddwl yn cael eu torri a'u defnyddio i lenwi tyllau mewn mannau eraill yn y system, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o'r GIG yng Nghymru.

Mae cyllid iechyd meddwl wedi'i glustnodi yng Nghymru – rydym wedi cynyddu'r gyllideb i dros £600m ac mae mwy na £1 o bob £10 a gaiff ei wario yn y GIG yng Nghymru yn cael ei wario ar iechyd meddwl.

Daeth Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) arloesol i rym yn 2012. Mae'r ddeddfwriaeth unigryw hon sy'n torri tir newydd yn ganolog i strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Dim ond yng Nghymru y gwarentir yr hawl i bob unigolyn sy'n derbyn gofal iechyd meddwl arbenigol gael cynllun gofal a thriniaeth, gan gefnogi'r grŵp hwn o bobl sy'n agored i niwed mewn ystod o feysydd fel gofal personol a lles, ac addysg a hyfforddiant, yn ogystal â thriniaeth feddygol.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i gymryd mwy o gamau i fynd i'r afael â stigma salwch meddwl; i gynyddu mynediad i therapïau siarad ac i hyrwyddo iechyd emosiynol gwell mewn ysgolion.

CYMUNEDAU MWY DIOGEL



HEDDLU
POLICE

COMMUNITY
SUPPORT OFFICER

YR HEDDLU A THROSEDDU

Y llynedd, amcangyfrifwyd bod 6.1 miliwn o ddigwyddiadau troseddau wedi'u dioddef gan oedolion yng Nghymru a Lloegr yn unig. Cofnododd bron i bob heddlu yn y wlad gynnydd mewn troseddau dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynnydd sy'n peri pryder mewn rhai o'r troseddau mwyaf treisgar, yn cynnwys troseddau â gynnau a chyllyll a dynladdiad.

Yn ystod cyfnod Theresa May, mae niferoedd yr heddlu wedi gostwng 20,000. Mae toriadau i'r heddlu yn peryglu cymunedau ac yn peryglu swyddogion yr heddlu hefyd. Bydd ymagwedd Llafur at blismona troseddau yn wahanol.

Byddwn yn cefnogi'r heddlu wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Byddwn yn darparu'r offer sydd eu hangen ar swyddogion, swyddogion cymorth cymunedol a staff sifilaidd, a'r bobl sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol, gan gynnwys o'r bygythiad cynyddol o seiberdroseddau. Byddwn yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel, i bob un ohonom ni.

Byddwn yn hyrwyddo polisiau plismona cymunedol ac yn cymhell ymarfer plismona da, gan weithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ledled y wlad ar strategaethau i atal troseddau. Byddwn yn gweithio hefyd i ddileu rhagfarnau sefydliadol yn erbyn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sy'n golygu eich bod yn dal yn fwy tebygol o lawer o gael eich stopio a'ch chwilio fel dyn du neu Asiaidd.

Bydd Llafur yn recriwtio 10,000 yn fwy o swyddogion heddlu i weithio ar rawdau cymunedol, sy'n gyfwerth ag o leiaf un yn fwy ar gyfer pob cymdogaeth yn y wlad. Bydd gan Gymru 853 o swyddogion heddlu newydd a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol y mae Llywodraeth Lafur Cymru eisoes yn eu hariannu i wneud ein cymunedau yn fwy diogel.

Fe wnaeth polisiau Llywodraeth Lafur Cymru helpu i gynyddu adrodd am droseddau casineb o 20% yn

2015-16. Rydym wedi ariannu canolfan genedlaethol adrodd am droseddau casineb a byddwn yn parhau i weithio i adeiladu hyder dioddefwyr a gwella ymgysylltu ar draws ein cymunedau.

Yn 2017-18, bydd Llafur Cymru yn buddsoddi dros £4.4m mewn prosiectau wedi'u hanelu at droi sylw pobl ifanc i ffwrdd oddi wrth droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Byddwn yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr troseddau, ac yn cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer hawliau safon ofynnol i wasanaeth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Yng Nghymru, rydym yn falch o fod wedi pasio Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyntaf y DU. Mae pethau yn mynd rhagddynt yn dda o ran gweithredu'r Ddeddf, ond mae llawer mwy i'w wneud eto o ran cyflwyno ein strategaeth genedlaethol.

Ond nid yw lefel y trais yn erbyn menywod a merched yn dderbyniol. Bydd Llafur yn pwysleisio diogelwch menywod a merched trwy benodi comisiynydd i bennu safonau newydd ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol. Mae hyn yn adeiladu ar benodiad a gwaith y cynghorydd cenedlaethol yng Nghymru.

Bydd Llafur yn sefydlu Cronfa Loches Genedlaethol ac yn sicrhau sefydlogrwydd i ganolfannau argyfwng trais. Bydd Llafur Cymru yn parhau i ddatblygu'r maes dysgu iechyd a lles yn y cwricwlwm ysgol newydd, er mwyn galluogi pobl ifanc i adeiladu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a phriodol.

Byddwn yn cryfhau'r gyfraith, gan wahardd defnyddio atebion cymunedol fel ymateb i drais domestig.

Bydd Llafur yn parhau i orfodi mesurau effeithiol i atal pob math o gam-drin, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod.

DIOGELWCH A GWRTHDERFYSGAETH

Bydd Llafur yn cynnal y trefniadau cydweithredu ar ddiogelwch trawsffiniol gyda'n partneriaid cudd-wybodaeth yn Ewrop a thu hwnt. Byddwn bob amser yn darparu'r adnoddau a'r pwerau y mae eu hangen arnynt i'n hasiantaethau diogelwch i warchod ein gwlad ac i'n cadw ni gyd yn ddiogel. Byddwn hefyd yn sicrhau nad yw'r cyfryw bwerau yn gwanhau ein hawliau unigol neu hawliau sifil.

Pan fydd y nodau hyn yn gwrthdaro - a byddant yn gwrthdaro weithiau, rhaid i'r modd o arfer pwerau ymchwiliol fod yn gymesur ac yn angenrheidiol bob amser. Byddwn yn ailgyflwyno goruchwyliaeth farnwrol effeithiol dros sut a pha bryd y'u defnyddir, pan fydd yr amgylchiadau yn mynnu bod ein diogelwch cyfunol yn gorbwyso rhyddid unigol.

Bydd Llafur yn adolygu'r rhaglen Prevent gyda'r bwriad o asesu ei heffeithiolrwydd a'i photensial i ddieithrio cymunedau lleiafrifol. Wrth wneud hynny, byddwn yn mynd i'r afael â methiant y llywodraeth i gymryd unrhyw fesurau newydd effeithiol yn erbyn problem gynyddol radicaleiddio eithafol neu dreisgar.

DIOGELWCH FFINIAU

Mae diogelwch ffiniau yn hanfodol i atal troseddau difrifol, gan gynnwys herwgipio plant, masnachu pobl, smyglo cyffuriau a chaethwasiaeth fodern.

Yn groes i rethreg y Llywodraeth Geidwadol, nid ydynt wedi cymryd unrhyw reolaeth o'n ffiniau nac wedi cryfhau ein diogelwch. Yn lle hynny, maent wedi ffrwyo adroddiadau'r arolygydd annibynnol yn tynnu sylw at wendidau ar ein ffiniau am eu bod wedi torri Llu'r Ffiniau o filoedd o bersonél. Maent am wneud landlordiaid, athrawon, staff meddygol a gweithwyr eraill y sector cyhoeddus yn swyddogion mewnfudo di-dâl y sector preifat, gan eu gorfodi i ddarparu gwybodaeth i'r awdurdodau.

Fe wnaeth y Ceidwadwyr addo a methu cyflawni 100% o wiriadau ymadael wrth y ffiniau. Bydd Llafur yn recriwtio 500 yn fwy o warchodwyr ffiniau i ychwanegu at ein mesurau diogelwch a'n rheolaethau.

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB

Yng Nghymru, mae nifer y tanau wedi gostwng yn nodedig ers datganoli'r gwasanaethau tân ac achub yn 2004-05, gyda gostyngiad o 56% yn y tanau yr ymdriniwyd â nhw.

Rydym wedi cymryd hyn fel cyfle cadarnhaol i wneud defnydd ehangach o sgiliau ymladdwyr tân, er enghraifft, wrth ymateb i bobl y mae angen gofal meddygol brys arnynt pan fyddant yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

Rydym wedi creu dyletswydd statudol i'r gwasanaethau tân ac achub i ymateb i lifogydd ac argyfyngau'n gysylltiedig â dŵr, sy'n peri risg marwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol, ac wedi buddsoddi £1.8m mewn offer newydd.

Gwneir y newidiadau hyn yn bosibl gan ein partneriaeth adeiladol gydag undebau llafur ar ystod o faterion, yn cynnwys pensiynau.

CYFIAWNDER

Mae angen mynediad i'r system gyfiawnder ar bawb ohonom i'n gwarchod rhag y rheiny a fyddai'n gwarafun ein hawliau i ni. Bydd Llafur yn mynd ati i wneud Prydain yn gymdeithas decach gyda hawliau i bawb, yn cael ei llywodraethu gan reolaeth y gyfraith, lle cynhelir y gyfraith a'i gorfodi'n gyfartal.

Mae'r Ceidwadwyr yn bygwth ein Deddf Hawliau Dynol ac efallai y byddant yn ein tynnu ni allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd Llafur yn cynnal y Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae cyfiawnder yn cael ei wadu'n rhy aml o lawer. Mae gormod o bobl gyffredin yn gwybod hyn. Mae yna gefnogwyr pêl-droed, undebwyr llafur, gweithredwyr amgylcheddol a phobl sy'n byw gydag anabledau y mae eu profiadau personol yn dystiolaeth uniongyrchol.

Bydd Llafur yn cynnal ymchwiliadau cyhoeddus i anghyfiawnderau hanesyddol. Byddwn yn agor ymchwiliadau i Orgreave a chosbrestru. Byddwn yn rhyddhau'r holl bapurau yn ymwneud â threialon 14 yr Amwythig a'r 37 o weithwyr iard longau Cammell Laird.

Mae cyfiawnder heddiw wedi dod yn fraint y cyfoethogion. Mae toriadau cyllideb yn golygu bod miloedd yn cael eu hamddifadu rhag penderfyniadau teg. Ceir llai o gyfiawnder yn sgil penderfyniadau gwael asesiadau wedi'u preifateiddio, gan dynnu cymorth cyfreithiol yn ôl, gan ddileu hawliau apêl, gan yr oedi sy'n deillio o lysoedd gorlawn a chan gostau ffioedd.

Mae cymhwyster ar gyfer cymorth cyfreithiol wedi'i dynnu'n ôl ar draws ystod gyfan o feysydd. Cafodd hyn ganlyniadau sy'n peri pryder o ran cyflawni cyfiawnder.

Seilir democratiaeth ar reolaeth y gyfraith ac annibyniaeth farnwrol. Byddwn yn adolygu'r broses penodiadau barnwrol hefyd, i sicrhau bod barnwriaeth yn fwy cynrychioliadol o'n gymdeithas.

Bydd Llafur yn mynd ati ar unwaith i ailsefydlu hawliau i gael cyngor cynnar yn y Llysoedd Teulu.

Mae canlyniadau cywilyddus tynnu hawliau yn ôl wedi cynnwys gofyniad i ddioddefwyr cam-drin domestig i dalu meddygon i ardystio'u hanafiadau. Bydd cynlluniau Llafur yn dileu'r gofyniad hwnnw. Ar yr un pryd, byddwn yn deddfu i wahardd croesholi dioddefwyr trais domestig gan y sawl sy'n eu cam-drin mewn rhai amgylchiadau.

Byddwn yn ailgyflwyno cyllid ar gyfer paratoi achosion adolygiad barnwrol. Mae adolygiad barnwrol yn ffordd bwysig o ddwyn y llywodraeth i gyfrif. Mae mesurau diogelwch digonol i wrthannog achosion annheilwng.

Byddwn yn adolygu'r profion modd cymorth cyfreithiol, gan gynnwys y prawf cyfalaf i'r rheiny ar fudd-daliadau'n gysylltiedig ag incwm.

Bydd Llafur yn ystyried adfer hawliau cymorth cyfreithiol eraill ar ôl cael argymhellion terfynol y Comisiwn Mynediad at Gyfiawnder a arweinir gan Arglwydd Bach.

Gall y system gyfiawnder fod yn ddryslyd ac yn fygythiol. Mae llawer o welliannau y gellir eu gwneud i'r gyfraith ac i brosesau'r llys.

Bydd Llywodraeth Lafur yn cyflwyno gweithdrefn ysgariad dim-bai.

Bydd Llywodraeth Lafur yn ymgynghori ar sefydlu tribiwnlys amgylcheddol gyda gweithdrefnau wedi'u symleiddio i wrando heriau i benderfyniadau anghyfreithlon gan y llywodraeth, fel y rheiny a wnaed ar strategaeth ansawdd yr aer, heb fod yn rhan o brosesau costus afresymol.

Ni fydd Llafur yn gwahardd y llysoedd rhag codi arian i ddarparu gwasanaethau, ond byddwn yn cyflwyno cymhareb i bennu'r uchafswm gwahaniaeth rhwng costau gwirioneddol a thaliadau a godir.

Bydd Llafur yn parhau i ehangu'r defnydd o dechnoleg yn ein gwasanaeth llysoedd lle mae'n gwella mynediad at gyfiawnder, datrys anghydfodau'n amserol a gweinyddu effeithlon.

CARCHARDAI A'R GWASANAETH PRAWF

Mae Llafur yn delio'n llym â throseddu ac yn delio'n llym ag achosion troseddu, ond ni fyddwn yn gwneud bywydau gweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol yn anoddach. Mae angen adnoddau ar swyddogion carchardai, swyddogion prawf a gweithwyr eraill i gyflawni eu swyddi'n ddiogel, yn effeithiol ac yn llwyddiannus.

Mae carchardai yn orlawn. Mae lefelau staffio yn rhy isel. Mae'r sefyllfa yn beryglus ac mae trais yn erbyn swyddogion carchar yn cynyddu. Mae terfysgoedd ac aflonyddwch yn ein carchardai yn cynyddu. Mae achosion o ddianc o garchardai yn peri gofid i bobl sy'n byw gerllaw carchardai.

Bydd Llafur yn recriwtio 3,000 yn fwy o swyddogion carchar ac yn adolygu'r hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol sydd ar gael. Byddwn yn cyhoeddi cymarebau swyddogion carchar i garcharorion ar gyfer pob carchar. Bydd ein cynnig i godi cap cyflog y sector cyhoeddus yn helpu i gynyddu recriwtio a chadw swyddogion carchar a swyddogion prawf. Mae Llywodraeth Lafur Cymru eisoes wedi ceisio a chael y pŵer i ildio'r cap ar daliadau ymadael â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cyfraddau aildroseddu yn rhy uchel. Soniodd y Ceidwadwyr am chwyldroi adsefydlu, ac yna rhoi'r gorau iddi. Eu cynnig yn awr yw rhoi mwy a mwy o unigolion dan glo, gan anwybyddu'r dystiolaeth fod ein carchardai yn rhy aml yn fan gwaredu i bobl y mae angen triniaeth arnynt yn fwy nag y mae angen eu cosbi. Bydd Llafur yn mynnu cael cynlluniau adsefydlu personol i bob carcharor.

Y dewis olaf un ddylai carchar fod bob amser – cosb fwyaf difrifol y wlad am droseddau difrifol. Ni ddylai fyth gymryd lle gwasanaethau iechyd meddwl sy'n methu, neu atal cyllid canolfannau trin effeithiau cyffuriau. Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai.

O dan Llywodraeth Lafur, ni fydd unrhyw garchardai preifat newydd ac ni fydd unrhyw garchardai sector cyhoeddus yn cael eu preifateiddio.

Llwyddodd modelau cyfiawnder ieuenctid arloesol Llafur i drawsnewid bywydau llawer o bobl ifanc, gan eu llywio i ffwrdd oddi wrth droseddu a thuag at ffyrdd mwy adeiladol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £4.4 miliwn i brosiectau gyda'r nod o gadw pobl ifanc rhag troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu at ostyngiad yn nifer y rhai sy'n mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, heddluoedd a gwasanaethau prawf i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc y mae perygl iddynt lithro i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad troseddol. Byddwn yn ymgorffori arferion cyfiawnder adferol ar draws yr holl sefydliadau i droseddwy'r ifanc.

Mae preifateiddio'r gwasanaethau prawf yn rhannol eisoes wedi methu.

Bydd Llafur yn adolygu rôl Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Fe wnaeth y Ceidwadwyr wthio newidiadau i'r gwasanaeth prawf er gwaethaf rhybuddion nad oeddent wedi'u profi a'u bod wedi'u seilio ar sail dystiolaeth wan.

BYW BYWYDAU CYFOETHOCACH



CYMUNEDAU LLEOL

Mae Cyngorau yn darparu gwasanaethau lleol hanfodol i'n cymunedau. Er gwaethaf toriadau llym y Torïaid a orfodwyd ar Gymru yn San Steffan, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud y penderfyniad i amddiffyn cyllid cyngorau yng Nghymru. Mae grym gwario cyngorau wedi'i dorri dros 25% yn Lloegr, o gymharu â 4% yn unig yng Nghymru.

Nid yw hyn yn golygu bod pethau'n hawdd i gyngorau Cymru. Mae cyngorwyr Llafur Cymru ledled y wlad yn wynebu penderfyniadau anodd yn ddyddiol yn sgil cyllidebau sy'n lleihau a galw cynyddol am wasanaethau. Byddai Llywodraeth Lafur yn San Steffan, sydd wedi ymrwymo i roi terfyn ar galedi, yn darparu cyd-destun cwbl wahanol ar gyfer cyllid a gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru.

Fel y blaid dros gydraddoldeb, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi parhau i gymryd camau i warchod pobl ar incymau isel, gan wario £244m i gynnal hawliau llawn ar gyfer cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Ar gyfartaledd, mae'r dreth gyngor yng Nghymru £171 yn is nag yn Lloegr, ac mae'n cynyddu ar gyfradd arafach.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi diogelu cyllid gofal cymdeithasol, gan helpu cyngorau Cymru i osgoi argyfwng gofal cymdeithasol. Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru wedi gostwng i'w lefelau isaf, ond yn Lloegr maent wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed o ganlyniad i chwe blynedd olynol o doriadau i gyllid gofal cymdeithasol gan y Torïaid. Eleni, byddwn yn buddsoddi £55m yn ychwanegol mewn gofal cymdeithasol i helpu cyngorau Cymru i ymateb i bwysau, gan gynnwys cost y cyflog byw cenedlaethol.

Yng Nghymru, rydym yn adolygu pa gamau ymyrryd cynnar a chamau atal y gellir eu cymryd i helpu lleihau niferoedd y plant sy'n mynd i mewn i ofal, a gwella canlyniadau i'r rheiny sydd eisoes yn y system gofal a phobl sy'n gadael gofal. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys lleihau a lliniaru'r

digwyddiadau o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod y gwyddom y gall fod mor andwyol i ddatblygiad plentyn, drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, a meithrin gwydnwch o fewn y teulu.

Mae ein cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth pan fyddant yn troi'n 18 oed. Mae'n eu galluogi i aros yn amgylchedd y teulu hyd at 21 neu 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant gytûn. Bydd ein 'Cronfa Dydd Gŵyl Dewi' newydd yn darparu £1m i awdurdodau lleol ledled Cymru i helpu pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yn yr un ffyrdd ag y mae rhieni yn helpu eu plant yn eu harddegau hwyr a'u hugeiniau cynnar.

Byddwn yn parhau i ariannu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i weithredu ei ymagwedd strategol a holistaidd at fabwysiadu a amlinellir yn ei Fframwaith newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu yng Nghymru.

Mae ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n garreg filltir wedi cryfhau'r ymagwedd partneriaeth at ddiogelu - mae'n gyfrifoldeb ar bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad i wneud popeth y gallant i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod rhag cam-drin.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei holl waith a bydd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu ar eu rhan.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn talu cost ffioedd claddu plant i rieni mewn profedigaeth ar draws yr holl gyngorau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod rhai cyngorau eisoes wedi cymryd y cam hynaws hwn. Mae hwn yn fater hollbwysig sy'n arwydd o bwy rydym am fod fel gwlad.

Rydym wedi diogelu cyllid addysg, gan arwain at y canlyniadau arholiadau gorau erioed, ac mae'r bwlch rhwng y plant cyfoethocaf a'r plant tlotaf wedi cau ym mhob cyfnod allweddol.

Rydym wrth reswm yn falch o'n hanes o ailgylchu sydd gyda'r mwyaf blaenllaw yn y byd. O ganlyniad i becyn cynhwysfawr o bolisiau, buddsoddiad a thargedau Llywodraeth Cymru, mae cynghorau Llafur Cymru wedi cynyddu lefelau ailgylchu yn ddramatig i 62%. Hon yw'r gyfradd ail uchaf yn Ewrop a'r drydedd uchaf yn y byd. Mae hyn yn cymharu â lefelau ailgylchu sy'n gostwng yn Lloegr – ar hyn o bryd mae o dan 44% am y tro cyntaf er 2011. Mae Cymru'n gweithio tuag at fod y wlad ailgylchu orau yn y byd.

Llafur yw plaid datganoli, a chredwn mewn rhoi grym yn ôl i gymunedau. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Cymru Bapur Gwyn yn galw am bartneriaeth wahanol a mwy cyfartal rhwng pobl a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddefnyddiant. Byddai hyn yn gweld set newydd o egwyddorion yn cael ei datblygu, yn cydnabod pobl fel yr arbenigwyr o ran rheoli eu bywydau eu hunain, a rhoi ymyriadau ar waith i ddatrys materion yn gynnar cyn iddynt ddwysáu .

Tra bod 1,200 o Ganolfannau Cychwyn Cadarn wedi'u colli yn Lloegr o dan y Ceidwadwyr, mae Llafur Cymru wedi dyblu nifer y bobl ifanc sy'n elwa o Dechrau'n Deg i dros 36,000. Byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hollbwysig hwn i fwy na chwarter o'r grŵp oedran.

Roedd preifateiddio'r Post Brenhinol gan Lywodraeth y Ceidwadwyr yn gamgymeriad hanesyddol, gan werthu ased cenedlaethol arall yn rhad. Byddwn yn gwrthdroi preifateiddio'r Post Brenhinol cyn gynted â phosibl. Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar gau canghennau Swyddfa Bost y Goron sy'n chwarae rhan fawr yn gwasanaethu eu cymunedau. Byddwn hefyd yn sefydlu comisiwn i sefydlu Banc Post, dan berchenogaeth Swyddfa'r Post, sy'n darparu amrediad llawn o wasanaethau bancio ym mhob cymuned.

Byddwn yn sefydlu adolygiad cenedlaethol o dafarndai lleol i archwilio'r achosion am dranc tafarndai ar raddfa fawr, ac yn sefydlu tasglu ar y cyd i ystyried eu cynaliadwyedd i'r dyfodol.

Byddwn yn lleihau'r uchafswm betio ar derfynellau betio ods penodedig. Mae gamblo sy'n peri problemau yn fater iechyd y cyhoedd, a bydd Llafur yn deddfu yn y maes hwn.

YR AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG

Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi cymryd cymunedau gwledig yn ganiataol, gyda thanfuddsoddi cronig mewn trafndiaeth, band eang a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cau ysgolion lleol, swyddfeydd post, a llyfrgelloedd.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi buddsoddi - a bydd yn parhau i fuddsoddi - yn ein cymunedau gwledig a'u seilwaith hanfodol. Mae ein rhaglen Cyflymu Cymru yn dod â mynediad i fand eang cyflymder uchel i'r mwyafrif o gartrefi a busnesau yng Nghymru nad ydynt yn gallu ei gael trwy raglenni masnachol y sector preifat. Eleni, byddwn yn buddsoddi £84m yn ychwanegol i wella trafndiaeth leol yng nghymunedau gwledig Cymru, ac rydym wedi cyflwyno cyllid gwaelodol i awdurdodau lleol i'w hamddiffyn yn erbyn y toriadau gwaethaf gan y Torïaid.

Diolch i waith Llywodraeth Lafur Cymru, mae twristiaeth yn llwyddiant mawr i economi Cymru. Mae niferoedd ymwelwyr rhyngwladol â Chymru; ymweliadau dydd a'r gwariant fesul diwrnod i gyd yn cynyddu. Yn 2016, adroddodd busnesau yng Nghymru fod mwy o bob wedi ymweld nag yn y flwyddyn flaenorol.

Byddwn y parhau i farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol drwy frandio mwy effeithiol, ac yn buddsoddi yn y bobl a'r lleoedd sy'n gwneud Cymru yn lle mor ddeniadol i ymweld ag ef.

Yn Lloegr, mae'r Ceidwadwyr wedi methu darparu gweledigaeth glir, uchelgeisiol neu gynaliadwy ar gyfer dyfodol y diwydiannau ffermio, bwyd a physgota.

Yng Nghymru, mae gennym ymagwedd nodedig sy'n integreiddio datblygu gwledig â rheolaeth amgylcheddol yng nghyd-destun yr UE. Yn dilyn pleidlais Brexit, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gweithio'n agos â ffermwyr a'r sector amgylcheddol i ddatblygu polisi datblygu gwledig i'r dyfodol a fydd yn cefnogi ffermio, datblygu gwledig a blaenoriaethau amgylcheddol.

Byddwn yn ehangu rôl y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i sicrhau bod cyflenwyr a defnyddwyr yn cael bargaen deg.

Byddwn yn caniatáu i weithwyr yr UE a gyflogir ar draws feysydd ffermio, pysgota a gweithgynhyrchu bwyd i aros yn y DU, ac yn adfer y Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol.

Fe wnaeth y Ceidwadwyr ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr a oedd yn pennu a diogelu cyflogau gweithwyr amaethyddol. Enillodd Llywodraeth Lafur Cymru achos yn y Goruchaf Lys i sefydlu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru, sy'n darparu cyflog teg i weithwyr amaethyddol ledled Cymru.

Mae buddsoddi yn ein hamgylchedd yn golygu buddsoddi yn ein dyfodol. Byddwn yn amddiffyn ac yn ehangu mesurau presennol i ddiogelu'r amgylchedd. Pasiwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru), sy'n garreg filltir, gan Lywodraeth Lafur Cymru, a bydd yn helpu Cymru i ddod yn economi werdd, carbon isel sy'n barod i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Byddwn yn hyrwyddo ffermio, bwyd a physgota cynaliadwy drwy hyrwyddo a buddsoddi mewn sgiliau, technoleg, mynediad i'r farchnad ac arloesedd.

Byddwn yn gwarchod ein gwenyn drwy atal neonicotinoidau cyn gynted ag y bydd ein perthynas a'r UE yn caniatáu i ni wneud hynny.

Byddwn yn creu fforestydd a choetiroedd cynaliadwy yng Nghymru. Yn wahanol i'r Ceidwadwyr a geisiodd eu preifateiddio, bydd Llafur yn cadw ein fforestydd yn nwylo'r cyhoedd.

Mae'r Ceidwadwyr yn Lloegr wedi torri eu haddewid i fod y 'llywodraeth wyrddaf erioed'. Maent wedi caniatáu ffracio mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNEau) fel y Gŵyr, wedi osgoi eu cyfrifoldebau ar ansawdd yr aer, ac wedi torri'r

cyllid ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd. Mae dyfodol ein diwydiannau ffermio, bwyd a physgota yn y fantol, i'w ddefnyddio fel grym trafod yn nhrafodaethau Brexit.

Mae bygythiad y Ceidwadwyr i wneud coelcerth o fiwrocratiaeth, fel rhan o Brexit, yn fygythiad i'n mesurau amddiffyn yr amgylchedd, ac felly i ansawdd ein bywydau. Mae eu hanes o fynd i'r afael â'r hinsawdd yn newid a difrod amgylcheddol wedi bod yn un o ddiffyg gweithredu a thorri addewidion.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn gwarchod ein hamgylchedd a'r aer a anadlwn. Rydym wedi ymgynghori ynglŷn â'n hymagwedd at lygredd aer, ac rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau i'r GIG i'w hannog i gefnogi awdurdodau lleol yn eu gwaith ar ansawdd yr aer. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau polisi newydd ar ansawdd yr aer i bob awdurdod lleol.

Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer fframwaith parth aer glân i Gymru. Byddwn yn diweddarau polisi cynllunio Cymru; yn rhoi gwelliannau a gytunwyd arnynt yn ddiweddar ar waith i reoli ansawdd aer lleol, ac yn adolygu ein hymagwedd at y rhwydwaith cefnffyrdd.

Llusgwyd y Ceidwadwyr i'r llys a'u gorfodi i gyhoeddi eu cynllun nitrogen deuocsid drafft. Ond mae eu hymrwymadau yn destun siom ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth am y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag allyriadau yn y DU, nac yn rhoi unrhyw fanylion am gynllun sgrapio diesel.

Mae mynd i'r afael â gwastraff yn llwyddiant mawr i Gymru, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru ar y trywydd i fod yn arweinydd byd o ran ailgylchu trefol.

Byddwn yn ymgynghori ar ein strategaeth wedi'i diweddarau, Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 2018. Fel rhan o hyn, rydym eisiau mynd i'r afael â phecynnu gwastraff drwy wneud yn

siŵr bod cynhyrchwyr yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ariannol am gasglu a rheoli gwastraff o gynhyrchion a phecynnu. Byddwn yn ystyried defnyddio cynwysyddion polystyren a chynwysyddion untro eraill, ac yn ystyried sut y gallai cynllun dychwelyd ernes effeithio ar gynlluniau awdurdod lleol presennol a ddefnyddir i gasglu a rheoli'r gwastraff a gynhyrchwn yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn datblygu'r Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyntaf, a fydd yn rheoli gweithgareddau morol mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

LLES ANIFEILIAID

Mae angen gwarchod anifeiliaid yn ein cadwyn fwyd. Mae angen gwarchod anifeiliaid domestig rhag creulondeb. Mae angen ecosystem gynaliadwy ar anifeiliaid gwyllt. Gweledigaeth Llafur yw i'r DU arwain y byd gyda safonau lles anifeiliaid uchel yn y gwyllt, mewn ffermio ac ar gyfer anifeiliaid domestig.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi goruchwyllo dros 10 mlynedd o welliannau i les anifeiliaid yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector.

Rydym wedi deddfu i weithredu ar nifer o faterion, gan gynnwys defnyddio coleri sy'n rhoi sioc drydanol, lles anifeiliaid a ffermir a bridio cŵn, ac rydym wedi cyflwyno codau ymarfer ar gyfer lles anifeiliaid anwes a da byw. Byddwn yn cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid symudol, gan gynnwys syrcau, ac rydym yn ymchwilio i sefydlu cofrestr cam-drin anifeiliaid yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i gryfhau ein hymagwedd at ddileu TB gwartheg, gan ganolbwyntio ar bob ffynhonnell heintio TB, yn cynnwys rhwng gwartheg a gwartheg a TB yn cael ei ledaenu gan fywyd gwyllt.

Bydd ein cyfres o fesurau cynhwysfawr newydd yn cynnwys ymagwedd ranbarthol newydd; rheolaethau gwartheg cadarnach a newidiadau i iawndal. Rydym yn parhau i ddiystyru rhaglen difa moch daear dull Lloegr, sy'n cynnwys ffermwyr yn saethu moch daear yn rhydd.

Fe wnaeth Llafur wahardd hela llwynogod, fe wnaeth Theresa May ei wrthwynebu. Dim ond Llywodraeth Lafur fydd yn cynnal y gwaharddiad.

TRAFNIDIAETH

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i greu system drafnidiaeth fodern, integredig a hygyrch ledled Cymru sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy ac a all gefnogi twf economaidd yn ein cymunedau.

Roedd mesurau'r Torïaid i ddadreoledio a phreifeiddio gwasanaethau trafndiaeth allweddol fel bysys a'r rheilffordd yn y 1980au a'r 1990au yn feithiant. Dywedont ein bod wedi cael dewis ac effeithlonrwydd, ond realiti eu hagenda preifateiddio trafndiaeth oedd bod gwasanaethau wedi'u darnio, cododd prisiau teithio ac aeth tocynnau'n rhy gymhleth.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i system drafnidiaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i wasanaeth cyhoeddus dros elw preifat.

Rydym yn arwain caffael masnachfaint newydd Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau o 2018 ac yn datblygu gwasanaethau metro yn Ne Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru, gan roi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni adeiladu system drafnidiaeth o safon fyd-eang, a fydd yn cefnogi trawsnewid ein heconomi a'n cymunedau.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru eisiau adeiladu system ddielw sy'n ymgorffori'r un egwyddorion o gydweithredu, tegwch a gwerth sy'n sail i'n gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru – fel y GIG.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn datblygu Trafnidiaeth Cymru i ymgymryd ag amrediad ehangach o swyddogaethau trafndiaeth yn debyg i Transort for London, er mwyn hyrwyddo integreiddio, sicrhau system docynnau gydgyssylltiedig a rheoli'r rhwydwaith trafndiaeth gyda ffocws o'r newydd ar y cyhoedd.

Byddwn yn sicrhau bod elw dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi'n ôl yn y system drafnidiaeth, gan gymell dewis a gyrru costau i lawr i'r teithiwr, a byddwn yn sicrhau bod mwy o wasanaethau yng Nghymru - tocynnau, marchnata, rheoli gorsafoedd a pharcio

ceir - yn gweithredu mewn ffyrdd arloesol o dan yr ymagwedd newydd hon. Byddai Llywodraeth Lafur y DU yn anrhydeddu'n llawn y cytundeb y daethpwyd iddo rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2014 mewn perthynas â throsglwyddo pwerau ar gyfer masnachfaint nesaf Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau,

Byddwn yn dod â'n rheilffyrdd yn ôl dan berchenogaeth gyhoeddus, wrth i fasnachfreintiau ddod i ben. Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn cyflwyno Bil Perchenogaeth Gyhoeddus ar y Rheilffyrdd i ddiddymu Deddf Rheilffyrdd 1993 a ddefnyddiodd y Ceidwadwyr i breifateiddio ein rheilffyrdd.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn gwneud y gwaith y methodd y Torïaid ei wneud ac yn cwblhau trydaneiddio prif linell y Great Western i Abertawe. Bydd hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru i bennu amserlen glir ar gyfer trydaneiddio prif linell Gogledd Cymru.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn cwblhau'r rheilffordd gyflym HS2 o Lundain trwy Birmingham i Leeds a Manceinion ac i mewn i'r Alban, gan sicrhau bod cysylltiadau effeithiol i Ogledd Cymru er bydd economi'r rhanbarth.

Bydd Llywodraeth Lafur yn buddsoddi i adfywio'r economïau lleol a rhanbarthol ar draws y wlad gyfan drwy sicrhau yr eir i'r afael â thanfuddsoddi hanesyddol yn ein rhwydwaith trafndiaeth.

I baratoi ar gyfer trefniadau masnachu byd-eang newydd, bydd Llywodraethau Llafur y DU a Chymru yn gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu porthladdoedd ac yn manteisio ar gyfleoedd newydd i dyfu ein porthladdoedd allweddol ar hyd a lled Cymru.

Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith tymor hir i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru drwy'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru a'r comisiwn cyfatebol yn y DU.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant Deddf Teithio Llesol arloesol Cymru i annog a galluogi pobl i fynd allan o'u ceir, er lles iechyd gwell ac amgylchedd glanach.

Byddwn yn symud ymlaen o ran ein Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar wella gwasanaeth bysys lleol yng Nghymru er mwyn galluogi creu rhwydwaith bysys cadarnach, mwy cynaliadwy a hygyrch sy'n rhan o system trafnidiaeth gyhoeddus integredig sy'n gwasanaethu ein cymunedau a'n heconomi yn well.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn ymgynghori ar reoleiddio'r sectorau hurio tacsis a cherbydau preifat trwyddedig gan wybod fod technolegau newydd, gwasanaeth defnyddwyr a diogelwch y cyhoedd yn mynnu bod cystadleuaeth deg rhwng y sectorau hynn.

Byddwn yn gofyn i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i archwilio ar argymell datblygiadau i'r rhwydwaith beicio cenedlaethol.

Byddwn yn parhau i uwchraddio ein priffyrdd ac yn gwella gwaith ar ffyrdd lle mae'n hysbys bod tagfeydd, ac yn bwrw ymlaen â buddsoddiadau mawr i'r A55 a'r ffordd liniaru newydd i'r M4.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiddymu tollau ar Bontydd Hafren.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cymdogion drwy Draffyrdd y Môr yr Undeb Ewropeaidd, a thrwy drafod i gadw aelodaeth o'r Ardal Hedfan Gyffredin a'r trefniant Awyr Agored.

DIWYLLIANT I BAWB

Mae diwydiannau creadigol Prydain yn destun cenfigen y byd, yn ffynhonnell balchder cenedlaethol, yn ysgogwr buddsoddi mewnol a thwristiaeth, ac yn symbol o'r math o wlad yr ydym nawr ac yn dyheu i fod yn y dyfodol.

Mae'r diwydiannau creadigol yn llwyddiant go iawn i economi Cymru. Diolch i gefnogaeth Llywodraeth Lafur Cymru, mae nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru wedi cynyddu dros 50% yn y 10 myned diwethaf, ac mae nifer y mentrau sy'n weithredol yn y sector wedi cynyddu mwy nag 20%.

Rydym wedi rhoi nifer o fecanweithiau ar waith, gan gynnwys tîm datblygu busnes pwrpasol a phanel y sector diwydiannau creadigol, er mwyn cryfhau'r sector yng Nghymru.

Agorodd Stiwdio Pinewood Cymru – stiwdio ffilm go iawn gyntaf Cymru – yn 2016, a bellach mae gennym ystod o 'fawrion' byd-eang yn dod i Gymru. Mae ein busnesau cynhenid yn ffynnu hefyd, gyda chwmnïau, criwiau a chadwyni cyflenwi yng Nghymru yn cynhyrchu cyfresi fel Doctor Who, Sherlock, Da Vinci's Demons, a Stella.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i sefydlu corff ar wahân i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Byddwn yn cynnal £40m y flwyddyn mewn gwariant ar gynhyrchu, yn creu o leiaf 100 o gwmnïau newydd yn y pum mlynedd nesaf a 4,000 yn fwy o swyddi yn y degawd nesaf.

Wrth i Brydain adael yr UE, byddwn yn rhoi ein sector creadigol o safon fyd-eang wrth galon ein trafodaethau. Mae angen i ni wneud mwy i agor y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i bawb.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn cyflwyno cronfa gyfalaf diwylliannol o £1bn yn y DU i uwchraddio seilwaith diwylliannol a chreadigol presennol i fod yn barod ar gyfer yr oes ddigidol, ac yn buddsoddi mewn clystyrau creadigol ledled y wlad. Bydd y gronfa ar gael dros gyfnod o bum mlynedd, a bydd

ymhlith y cronfeydd seilwaith celfyddydau mwyaf erioed, gan drawsnewid tirwedd ddiwylliannol y wlad.

Bydd Llafur yn cadw mynediad rhad ac am ddim i amgueddfeydd, ac yn buddsoddi yn ein hamgueddfeydd a'r sector treftadaeth.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn dwyn y gwaith y mae wedi'i ddechrau ymlaen i alluogi ein sefydliadau treftadaeth a diwylliant i hyrwyddo'r buddion economaidd i bobl Cymru gymaint â phosibl.

Byddwn yn parhau i nodi canmlwyddiant parhaus y Rhyfel Byd Cyntaf ac aberth yr holl rai a fu farw. Mae Llafur yn parhau'n ymroddedig i anrhydeddu rôl pawb sydd wedi gwasanaethu ein gwlad, gan gynnwys y milwyr Sikh, Hindŵaidd a Mwslimaidd a fu'n ymladd dros Brydain.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn datblygu'r gwaith y mae wedi'i ddechrau drwy'r rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau i alluogi plant a phobl ifanc i gael y cyfle i gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau a diwylliannol.

Mae bod yn berfformiwr yn yrfa wych, ond yn rhy aml mae'r diwylliant o gyflog isel neu ddim cyflog yn golygu ei bod yn anodd i'r rheiny sydd heb deuluoedd cefnog i'w cefnogi. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr i gytuno ar gyngor a chanllawiau penodol i'r sector ar gyflog a safonau cyflogaeth a fydd yn gwneud y sector yn fwy hygyrch i bawb.

Byddwn yn gwella amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, gan weithio gyda'r diwydiant ffilm a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a masnachol i ddod o hyd i atebion cyflym i wella amrywiaeth.

Rydym yn cydnabod y pryder difrifol ynglŷn â'r "bwlch gwerth" rhwng cynhyrchwyr cynnwys creadigol a'r gwasanaethau digidol sy'n elwa o'i ddefnyddio, a byddwn yn gweithio gyda bob ochr

i adolygu'r ffordd y caiff crewyr ac artistiaid eu gwobrwyo am eu gwaith yn yr oes ddigidol.

Mae angen i bawb ohonom weithio'n galetach i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Bydd Llafur yn sicrhau bod rhwymedigaeth ar gwmnïau technegol i gymryd mesurau i warchod plant ymhellach, ac i fynd i'r afael â cham-drin ar-lein. Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn deall a'u bod yn gallu tynnu'n hawdd unrhyw gynnwys y gwnaethant ei rannu ar y rhyngwrwyd cyn eu bod yn 18 oed.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio tuag at sicrhau bod miliwn o bobl yn siarad Cymraeg, a byddwn yn parhau i fuddsoddi i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Y CYFRYNGAU

Mae'r BBC yn ased cenedlaethol y dylai pob un ohonom fod yn falch ohono. Yn wahanol i'r Ceidwadwyr, bydd Llafur yn ei gefnogi bob amser ac yn cynnal ei annibyniaeth. Byddwn yn sicrhau bod gan y BBC a darlledu gwasanaeth cyhoeddus ddyfodol iach. Mae Llafur wedi ymrwymo i gadw Channel 4 dan berchenogaeth gyhoeddus, a bydd yn gwarantu dyfodol y darlledwr Cymraeg S4C.

Mae dioddefwyr hacio ffôn wedi'u siomi gan Lywodraeth Geidwadol a addawodd gyfiawnder iddynt, ond a fethodd â chyflawni ar hynny. Byddwn yn gweithredu argymhellion rhan un o Ymchwiliad Leveson ac yn dechrau rhan dau o'r ymchwiliad a fydd yn edrych i'r methiannau llywodraethu corfforaethol a adawodd i'r sgandal hacio ddigwydd.

Mae papurau newydd a darlledu lleol ym Mhrydain yn rhan bwysig o'n democratiaeth a'n diwyddiant. Rydym yn pryderu ynghylch cyfryngau lleol yn cau a'r gostyngiadau yn y nifer o newyddiadurwyr lleol. Bydd Llafur yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu amgylchedd cryfach i'r cyfryngau lleol dyfu.

Er mwyn gwarchod democratiaeth a rhyddid y cyfryngau, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod Ofcom yn gallu diogelu lluosogrwydd iach o ran perchenogaeth cyfryngau, ac i sefydlu rheolau cliriach ar bwy sy'n addas

CHWARAEON

Mae'n rhaid cynnal chwaraeon er budd y rhai sy'n cyfranogi ynddynt ac yn hoff ohonynt, nid i ychydig rai breintiedig yn unig. Byddwn yn rhoi'r cyfle i gefnogwyr pêl-droed gael mwy o lais o ran y modd y caiff eu clybiau eu rhedeg. Byddwn yn deddfu dros i ymddiriedolaethau cefnogwyr achrededig allu penodi a diswyddo o leiaf dau gyfarwyddwr clwb ac i brynu cyfranddaliadau pan fydd clybiau'n newid dwylo. Byddwn yn adolygu cyfranogiad cefnogwyr mewn llywodraethu chwaraeon yn ehangach.

Rhaid i ddigwyddiadau chwaraeon fod yn agored ac yn hygyrch i bawb. Byddwn yn gwrthio awdurdodau chwaraeon i wneud gwelliannau cyflym ar ddarpariaeth mynediad i gefnogwyr anabl.

Bydd Llafur yn sicrhau bod yr Uwch-gynghrair yn cyflawni ar ei addewid i fuddsoddi 5% o'i incwm hawliau teledu mewn prosiectau llawr gwlad er mwyn helpu'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr a hyfforddwyr, a gwella cyfleusterau a chaeau chwarae. Mae'r Uwch-gynghrair wedi methu gwneud hynny hyd yma, er gwaethaf cytundebau teledu domestig a rhyngwladol newydd proffidiol.

Chwaraeon yw enaid ein bywyd diwylliannol yng Nghymru, a pharhawn i gyflawni ymhell y tu hwnt i bob disgwyl o ran denu digwyddiadau byd-eang mawrion i'n gwlad. O'r Cwpan Ryder i Gwpan Rygbi'r Byd, rydym wedi dangos y gorau o Gymru i weddill y byd. Caerdydd yw'r brifddinas leiaf erioed i gynnal Gêm Derfynol y Cynghrair Pencampwyr, ac rydym yn buddsoddi mewn atyniadau awyr agored fel Zip World a Surf Snowdonia, sy'n ysgogi mwy o wariant ar dwristiaeth antur yn ein cymunedau.

Mae'r farchnad docynnau ddiffygiol yn y DU yn golygu bod tocynnau yn gwerthu allan ar unwaith a'u bod yn cael eu gosod ar wefannau towtio tocynnau am brisiau llawer iawn yn uwch. Bydd Llafur yn gorfodi deddfwriaeth gwrth-fot ac yn gweithredu argymhellion Adolygiad Waterson er mwyn sicrhau cyfleodd teg i gefnogwyr brynu tocynnau.

YMESTYN DEMOCRATIAETH





YMESTYN DEMOCRATIAETH

Wrth i ni newid ein perthynas gyfansoddiadol ag Ewrop, mae'n rhaid i ni hefyd addasu ein trefniadau ein hunain. Roedd yr un faint o'r farn bod pŵer yn rhy ganolog ac nad oedd yn atebol ym Mrwsel ag sydd yn teimlo hynny am San Steffan.

Bydd Llywodraeth Lafur yn sefydlu Confensiwn Cyfansoddiadol i archwilio a chynghori ar ddiwygio'r ffordd y mae Prydain yn gweithio ar lefel sylfaenol.

Byddwn yn ymgynghori ar ei ffurf a'i gylch gorchwyl ac yn gwahodd argymhellion ar ymestyn democratiaeth.

Mae hyn yn ymwneud â ble mae pŵer a sofraniaeth yn bodoli – mewn gwleidyddiaeth, yr economi, y system cyfiawnder, ac yn ein cymunedau.

Bydd y Confensiwn yn ystyried ymestyn democratiaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ystyried yr opsiwn o wlad fwy ffederal.

Ein cred sylfaenol yw y dylid ethol yr Ail Siambr yn ddemocrataidd. Yn y cyfamser, byddwn yn ceisio dod â'r egwyddor etifeddol i ben ac yn lleihau maint Tŷ'r Arglwyddi fel rhan o becyn ehangach o ddiwygio cyfansoddiadol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd cynyddol ar draws Prydain.

Byddwn yn ymestyn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gwmnïau preifat sydd yn cynnal gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn gostwng yr oed pleidleisio i 16. Yn 16 oed, rydych yn gymwys i dalu treth, priodi ac ymuno â'r fyddin. Rydych yn haeddu pleidlais.

Byddwn yn diogelu ein democratiaeth trwy ddiddymu'r Ddeddf Lobïo, sydd wedi atal llais elusennau a chyflwyno cofrestr statudol lymach o lobïwyr.

LLOEGR

Mae angen perthynas gyfartal gyda gweinyddiaethau datganoledig; bydd Llafur yn creu rôl ar gyfer Gweinidog Lloegr, fydd yn eistedd o dan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, ac yn gweithio gydag Ysgrifenyddion Gwladol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Byddwn yn adfer swyddfeydd rhanbarthol er mwyn cynyddu cyswllt rhwng llywodraeth ganolog a lleol ar lawr gwlad.

Bydd Llafur yn cael ei arwain gan farn y cyhoedd wrth bennu a ddylid cynnwys meiri etholedig mewn cytundebau datganoli yn y dyfodol.

YR ALBAN

Mae Llafur yn gwrthwynebu ail refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban. Nid oes ei eisiau na'i angen a byddwn yn ymgyrchu'n ddiflino i sicrhau bod yr Alban yn aros yn rhan o'r DU. Byddai annibyniaeth yn arwain at gyni o'r newydd i deuluoedd yr Alban.

Bydd Senedd yr Alban yn cael cynnydd sylweddol mewn cyllid o'n polisiau a bydd nifer enfawr o Albanwyr yn elwa ar ein cynlluniau mewn meysydd neilltuol i San Steffan.

Byddwn yn sefydlu Banc Buddsoddi'r Alban gyda £20bn o arian ar gael i brosiectau lleol a busnesau bach yr Alban, gan greu gwaith ac ysgogi'r economi.

Byddwn yn sefydlu ymchwiliad i gosbrestru a byddwn hefyd yn annog Llywodraeth yr Alban i gynnal ymchwiliad i weithredoedd heddlu'r Alban yn ystod streic y glowyr.

CYMRU

Rydym yn falch o gyflawniadau Llywodraeth Llafur Cymru a'i henw da yn cyflawni. Mewn llywodraeth, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sefyll dros bobl Cymru a diogelu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae angen diwygio hirdymor yn ymwneud â'r ffordd y mae'r DU yn dyrannu gwariant cyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion rhannau gwahanol o'n gwlad ac nad oes unrhyw wlad na rhanbarth o'r DU o dan anfantais.

Byddwn yn adeiladu ar Fanc Datblygu i Gymru gan ddefnyddio dros £10bn o Fanc Buddsoddi Cenedlaethol newydd Llafur.

Byddwn yn dwyn deddfwriaeth ymlaen i wneud y setliad datganoli yn fwy cynaliadwy fel y nodir gan Lywodraeth Llafur Cymru ym Mil Amgen Cymru, yn cynnwys datganoli plismona.

GOGLEDD IWERDDON

Mae'r heddwch sy'n bodoli heddiw yng Ngogledd Iwerddon oherwydd ymdrechion dewr y rheiny ar bob ochr sydd wedi bod yn ddigon dewr i'w ddatblygu.

Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, yr helpodd Llafur i'w drafod, yw un o gyflawniadau gorau Llafur mewn llywodraeth.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r egwyddorion a'r strwythurau priodol yng Nghytundeb Dydd Gwener y Groglith ac rydym yn dal wedi ymrwymo i weithio gyda phob ochr i gyflawni heddwch gwirioneddol a mwy o ffyniant yng Ngogledd Iwerddon.

CYMDDEITHAS FWY CYFARTAL



CYMDEITHAS FWY CYFARTAL

Mae'r Blaid Lafur yn blaid o gydraddoldeb ac mae'n ceisio datblygu cymdeithas a byd sydd yn rhydd rhag pob math o hiliaeth, gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia. Mae gan Lafur enw da yn datblygu hawliau a rhyddid menywod y gallwn ymfalchïo ynddo.

Cyflwynodd Llafur Ddeddf Cyflog Cyfartal, y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw, y Ddeddf Cydraddoldeb, a'r Isafswm Cyflog. Mae pob darn o ddeddfwriaeth cydraddoldeb wedi cael ei gyflwyno gan Lafur.

Gyda'r Ceidwadwyr, mae cynnydd yn cael ei dynnu'n ôl i fenywod, pobl ag anabledau, pobl LGBT a chymunedau BAME. Mae toriadau i wasanaethau cyhoeddus a nawdd cymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a lleiafrifoedd ethnig, gydag 86% o'r arian a godwyd gan newidiadau'r Toriaid i dreth a nawdd cymdeithasol yn dod o bocedi menywod.

Llywodraeth Lafur wnaeth gysegru'r hawliau a'r rhyddid a geir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU, gan nodi cychwyn y Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae toriadau trychinebus i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan y Ceidwadwyr yn datgelu eu hagwedd wirioneddol, y tu hwnt i'r rhethreg, tuag at faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu. Gwnaed y toriadau hyn ymysg y cynnydd mewn troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd Llywodraeth Lafur yn gwella pwerau a swyddogaethau'r comisiwn hwn, gan ei wneud yn gwbl annibynnol, er mwyn sicrhau y gall gefnogi pobl gyffredin sy'n gweithio i herio unrhyw wahaniaethu y maent yn ei wynebu yn effeithiol.

Mae amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Llafur Cymru wedi eu dylunio i sicrhau bod gwasanaethau

cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymateb i anghenion pobl, a bod cymunedau yn gynhwysol.

Rydym yn gweithio i sicrhau nad yw pobl o dan anfantais gan ryw, hil, ffydd neu gred; gan gyfeiriadedd rhywiol, oed, beichiogrwydd na mamolaeth; trwy fod yn briod neu fod mewn partneriaeth sifil; trwy fod yn berson anabl neu o ran eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Ni oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn well – mae'n ofynnol iddynt ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas decach drwy roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, datblygu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda.

MENYWOD

Mae'r datblygiadau ar gyfer menywod ym Mhrydain ac ar draws y byd wedi cael eu brwydro a'u hennill gan fenywod penderfynol yn cydweithio dros newid gwirioneddol gan wynebu gwrthwynebiad a cham-drin yn aml.

Mae gan Lafur enw da yn datblygu hawliau a rhyddid menywod. Fe wnaethom gyflwyno'r Ddeddf Cyflog Cyfartal, y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw, y Ddeddf Cydraddoldeb, yr isafswm cyflog a chyflwyno Cychwyn Cadarn. Bydd ein llywodraeth ni yn llywodraeth i fenywod, gyda Chabinet o 50% o fenywod o leiaf, sydd yn brwydro yn erbyn anghydraddoldeb a chasineb at fenywod ym mhob rhan o gymdeithas.

Bydd Llywodraeth Lafur yn archwilio pob polisi a deddfwriaeth o ran ei effaith ar fenywod cyn ei weithredu.

Bydd Llafur yn parhau i sicrhau hawl menyw i ddewis erthyliad diogel, cyfreithlon.

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn dal i fod yn epidemig byd-eang, sy'n effeithio ar ryw un mewn tri o fenywod ar draws y byd. Yn y DU, mae dwy fenyw ar gyfartaledd yn cael eu lladd gan eu partner cyfredol neu gyn-bartner bob wythnos. Gyda'r Ceidwadwyr, roedd dros draean yr holl gyllid llywodraeth leol ar gyfer trais domestig a rhywiol eisoes wedi ei dorri erbyn 2012.

Bydd Llafur yn penodi comisiynydd newydd i orfodi isafswm safonau o ran mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol. Byddai Comisiynydd Trais yn Erbyn Menywod hefyd yn darparu cyllid canolog sefydlog ar gyfer llochesau i fenywod a chanolfannau argyfwng trais ac yn annog rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol.

Mae hyn yn datblygu gwaith yng Nghymru, lle pasiwyd y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn 2015 – y ddeddfwriaeth gyntaf o'i bath yn y DU a'r unig ddeddfwriaeth o'i bath yn Ewrop i gynnwys ffocws penodol ar drais yn erbyn menywod. Mae

gweithredu'r Ddeddf yn mynd rhagddo, ac mae cynghorydd cenedlaethol wedi ei benodi.

Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn cyhoeddi cynllun cyflenwi, fydd yn cynnwys manylion cyllid cynaliadwy, canllawiau ar gomisiynu ac ymagwedd addysg gyfan tuag at gydberthynas iach a fframwaith ymgysylltu goroeswyr.

Mae gwahaniaethu ar sail mamolaeth allan o reolaeth gyda'r Ceidwadwyr, gan ddyblu bron yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae llawer o famau yn amharod i gwyno am wahaniaethu a thriniaeth annheg. Mae gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail mamolaeth a beichiogrwydd yn fwy cyffredin mewn gweithleoedd ym Mhrydain nag erioed o'r blaen, gyda 54,000 o fenywod beichiog a mamau newydd yn cael eu gorfodi allan o'u swyddi yn 2015.

Bydd Llafur yn gwrthdroi'r ffioedd tribiwnlys cyflogaeth annheg sydd yn llythrennol yn prisio pobl allan o gyfiawnder. Bydd Llafur hefyd yn ymestyn y cyfnod ar gyfer dwyn achos ynghylch gwahaniaethu ar sail mamolaeth gerbron y tribiwnlys cyflogaeth o dri i chwe mis.

Bydd Llafur yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i wneud asesiad risg yn y gweithle yn orfodol ar gyfer menywod beichiog er mwyn i addasiadau angenrheidiol gael eu gwneud, a chymorth adolygu ar gyfer menywod sydd wedi cam-esgor.

CYDRADDOLDEB LGBT

